# Y DINESYDD

Mai 2019 Papur Pobl Caerdydd a'r Fro Rhif 437 £1





## Hei ... mae'n dod!



**Felly dewch chithau hefyd yn eich miloedd i Eisteddfod yr Urdd Caerdydd a'r Fro**

**Cyfle i ennill pâr o docynnau i'r Gyngerdd Agoriadol td.4**



# Y DINESYDD

**Golygydd:**
**Ioan Kidd**

***Golygydd Mehefin***
***Miranda Morton***

Cyfraniadau erbyn 27 Mai i:
telynores.ysblot@yahoo.co.uk
32 Stryd Arthur, Y Rhath,
Caerdydd CF24 1QR
07713 765692

Y Digwyddiadur:
Yr Athro E Wyn James
JamesEW@caerdydd.ac.uk
16 Kelston Road, Caerdydd, CF14 2AJ
029 20628754

Hysbysebion:
Iestyn Davies
iestynd@gmail.com
15 Birchfield Crescent, Parc Victoria,
Caerdydd, CF5 1AE
07876 068498

Prif Ddosbarthwr:
Arthur Evans
Yr Eglwys Newydd.
aloevans@gmail.com
029 20623628

Dosbarthwr Cynorthwyol:
Ifan Saer

Tanysgrifiadau i:
Ceri Morgan
ceri33@btopenworld.com
24, Cwm Gwynlais, Tongwynlais,
Caerdydd, CF15 7HU
029 20813812 / 07774 816209

**www.dinesydd.cymru**
Cyhoeddir gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi
ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyr:
Gwasg Morgannwg, Castell-nedd
Cysodydd: Eirian Dafydd

Ariennir yn rhannol
gan
Lywodraeth Cymru

Y Cyfryngau Cymdeithasol
Twitter: @DinesyddCdydd
Facebook:
www.facebook.com/YDinesydd


## Gwobr Cyflawniad Oes i Roy Saer



***Roy Saer gyda'r gyflwynwraig Lisa Gwilym***
***Llun trwy garedigrwydd Elisa Morris***

Llongyfarchion i Roy Saer, Llandaf, ar ddyfarnu iddo Wobr Cyflawniad Oes yn nechrau Ebrill. Yr achlysur oedd Gwobrau Gwerin Cymru 2019, y cyntaf o'i fath i gael ei gynnal, ac fe'i llwyfannwyd yn Neuadd Hoddinott, Canolfan Mileniwm Cymru, gerbron cynulleidfa o dros dri chant. Trefnwyr y noson oedd *trac* (corff datblygu traddodiadau gwerin yng Nghymru), BBC Radio Cymru a Radio Wales, Cyngor Celfyddydau Cymru, a'r Cyngor Prydeinig. Cyflwynwyd y rhaglen yn ddwyieithog gan Frank Hennessy a Lisa Gwilym (a darlledwyd rhan helaeth o eitemau'r noson ar eu rhaglenni hwy yr wythnos ddilynol).

Rhan o'r ddarpariaeth gerddorol oedd perfformiadau gan Calan, Gwilym Bowen Rhys, Vrï, a The Trials of Cato. Dyfarnwyd ymron ddwsin o wobrwyon i gyd, a hyn gan gwmpasu gwahanol gategorïau o berfformwyr (yn lleisiol ac offerynnol) a chaneuon.

Cyflwynwyd Roy Saer gan Gregg Lynn, prif leisydd grŵp gwerin Yr Hwntws. Wrth dderbyn y gydnabyddiaeth am ei waith ym maes cerddoriaeth draddodiadol Cymru, mynnodd Roy bwysleisio ei ddyled o'r cychwyn i Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, am ei gweledigaeth wrth iddi sefydlu ei harchif sain genedlaethol unigryw yn ystod 50au'r ganrif o'r blaen; i Vincent Phillips, ei Bennaeth Adran yn Sain Ffagan, a gynigiodd iddo ganu gwerin fel maes ymchwil; ac i Gymdeithas Alawon Gwerin Cymru, y bu ei chylchgrawn cyfoethog yn arweiniad sylfaenol iddo o 1963 ymlaen.

Ystyriwyd y noson ar ei hyd yn llwyddiant ysgubol. Ar draws ymron deirawr, clywyd perfformiadau gan ystôr o dalentau gwirioneddol ddisglair, a mawr obeithir yn awr y bydd digwyddiad Gwobr Gwerin Cymru yn cael ei lwyfannu'n flynyddol wedi hyn.

## Siopau sy'n gwerthu'r Dinesydd

**CABAN**, Pontcanna
**CANT A MIL VINTAGE**, 100 Whitchurch Rd.
**CHAPTER**, Treganna
**DERI STORES**, Rhiwbeina
**GRIFFIN BOOKS**, Penarth
**NISA**, Heol Caerdydd, Dinas Powys
**PAPERWEIGHT**, 22 Wellfield Road
**SIOP BODLON**, Yr Hen Lyfrgell, Yr Ais
**SIOP Y FELIN**, Yr Eglwys Newydd
**VICTORIA FEARN GALLERY**, Rhiwbeina

# Ysgol Glantaf



**Eisteddfod yr Ysgol**
Daeth bwrlwm yr Eisteddfod i Erddi Soffia unwaith eto eleni. Gwelwyd gwledd o berfformiadau cerddorol a dramatig gan ddisgyblion o Flwyddyn 7 hyd at Flwyddyn 13. Llongyfarchiadau mawr i Efa ar ddod yn fuddugol yng nghystadleuaeth y Gadair ac i Efan a Gwenno ar ddod yn ail a thrydydd. Gŵyl y gwyrdd oedd hi eleni wrth i lys Dyfrig ennill yr Eisteddfod.

**Elusennau**
**Adroddiad Ailish Wade, Blwyddyn 12**
Mae aelodau Pwyllgor y Chweched wedi bod yn brysur iawn dros y misoedd diwethaf yn trefnu amryw o ddigwyddiadau i godi arian ar gyfer sawl elusen. Un o brif elusennau'r chweched eleni yw 'Toilet Twinning', elusen sy'n helpu cymunedau ar draws y byd, gan baru eich tai bach eich hun gyda'r rheini mewn gwledydd llai datblygedig. Bydd yr arian yn mynd tuag at adeiladu tai bach, addysg, hylendid a dŵr glân i gymunedau ar draws y byd.
£60 yw cost adeiladu tŷ bach, felly nod Glantaf yw codi arian i baru blociau tai bach yr ysgol gyda'r rheini yn Affganistan. Mae'r pwyllgor wedi bod yn brysur yn cynnal nifer o weithgareddau amrywiol megis stondinau cacennau, seiclo'r pellter i Affganistan ar beiriannau beic yr ysgol, cerdded i gopa Pen y Fan ac, yn ddiweddar, mae wedi llwyddo i berswadio nifer o ddisgyblion i eillio eu pennau ar ran yr elusen. Mae dros fil o bunnoedd wedi'i gasglu'n barod. Da iawn wir!



**Cyrraedd yr Uchelfannau**
Llongyfarchiadau gwresog i Efa, Blwyddyn 7, ar ennill cystadleuaeth ddringo i ieuenctid Cymru. Bydd Efa yn mynd yn ei blaen i gynrychioli Cymru ym mhencampwriaethau Prydain.



***pencampwyr hoci dan 18***



**Llwyddiant ar y cae**
Llongyfarchiadau mawr i'n timoedd hoci dan 18 a dan 14 ar ddod yn Bencampwyr Cymru. Diolch yn fawr iawn i Miss Harries am eu harwain tuag at lwyddiant.

***pencampwyr hoci dan 14***




## Cyngerdd Agoriadol – cyfle i ennill pâr o docynnau!




Dyma gyngerdd deilwng i agor yr Eisteddfod, gyda Mei Gwynedd, CF1, Aelwyd y Waun Ddyfal, Athena a llawer mwy. Yn ogystal, ceir perfformiadau gan gast y Sioe Gynradd a'r Sioe Ieuenctid – mae'n argoeli i fod yn noson i'w chofio!

**Cwestiwn**: Pwy sy'n cyflwyno'r Gyngerdd Agoriadol eleni? Am siawns i ennill pâr o docynnau i'r noson, e-bostiwch eich ateb i helo@urdd.org erbyn yr **20fed o Fai 2019**.

**Sioeau'r Eisteddfod**
**Twiglets, Pwnsh a Buckaroo: Sioe Ieuenctid Eisteddfod yr Urdd 2019**
gan Gruffudd Eifion Owen a Mei Gwynedd.
Dyma sioe wreiddiol sy'n delio â themâu a phroblemau ieuenctid mewn modd gonest, ysgafn a doniol. Rhybudd: rhai themâu aeddfed ac iaith gref achlysurol.
Cynhelir y perfformiadau ar nos Sadwrn, 25 Mai a nos Lun, 27 Mai yn Ysgol Stanwell, Penarth.
Tocynnau: Canolfan Mileniwm Cymru (www.wmc.org.uk / 029 2063 6464).

**Troi Heddiw yn Ddoe: Sioe Gynradd Eisteddfod yr Urdd 2019** gan Anwen Carlisle a Dyfan Jones.
Yr ysbrydoliaeth y tu ôl i'r sioe wreiddiol hon yw hanes yr iaith Gymraeg yn y ddinas a Phorth Teigr yn ystod cyfnod pan oedd allforio glo ar ei anterth.
Cynhelir y perfformiadau ar nos Fawrth, 28 Mai yn Theatr Donald Gordon, Canolfan Mileniwm Cymru. Tocynnau: Canolfan Mileniwm Cymru (www.wmc.org.uk / 029 2063 6464).

**Bandiau Braich**
Am y tro cyntaf erioed, bydd mynediad i Faes yr Eisteddfod yn rhad ac am ddim eleni, ac ni fydd angen Band Braich er mwyn ymweld â'r safle a'r holl stondinau.
Er mwyn cael mynediad i'r holl leoliadau cystadlu (gan gynnwys y Pafiliwn a'r rhagbrofion), bydd gofyn i oedolion (18+ oed) brynu band braich dyddiol. Ond fe fydd mynediad i gystadleuwyr a phlant o dan 18 oed yn rhad ac am ddim.
Mae'r bandiau braich ar werth o wefan Canolfan Mileniwm Cymru, sef ein Pafiliwn eleni. Ewch draw i'w gwefan (www.wmc.org.uk) am atebion i gwestiynau cyffredin ac i archebu eich bandiau braich o flaen llaw.

**2000 o blant Caerdydd a'r Fro, Mei Gwynedd ac un gân eiconig**
Ar drothwy dyfodiad Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd i Gaerdydd a'r Fro eleni, mae'r Urdd wedi cyhoeddi bod fersiwn newydd o gân adnabyddus y mudiad, *Hei Mistar Urdd*, yn cael ei rhyddhau.
Comisiynwyd y cynhyrchydd, y cyfansoddwr a'r canwr, Mei Gwynedd, i fynd ati i greu fersiwn newydd o'r gân ac mae'r record newydd yn cynnwys lleisiau 2000 o

blant ysgolion cynradd Caerdydd a'r Fro.
Bydd y fersiwn newydd ar gael i'w lawrlwytho o'r 10fed o Fai a bydd perfformiad arbennig gan Mei Gwynedd a rhai o'r plant o lwyfan Canolfan y Mileniwm yn ystod Cyngerdd Agoriadol yr Eisteddfod nos Sul, 26 Mai.
Mae'r gân wedi bod yn anthem i'r Urdd ers ei rhyddhau am y tro cyntaf yn 1977 a sawl cenhedlaeth o blant, erbyn hyn, yn gyfarwydd iawn â hi. I nifer, mae'n dwyn atgofion o ddisgos yn y gwersylloedd ac mae clywed y gytgan enwog bron yn ddieithriad yn codi gwên.
Roedd cyfansoddwr y gân eiconig, Geraint Davies, yn gweithio i Adran Eisteddfod yr Urdd yn Aberystwyth pan ofynnodd Wynne Melville Jones iddo ysgrifennu cân ar gyfer lansio cymeriad cartŵn Mistar Urdd. Dros ddeugain mlynedd yn ddiweddarach, mae'r gân yn parhau i fod yn rhan o hunaniaeth yr Urdd.
Roedd Geraint yn aelod o'r grŵp Hergest, ac Emyr Wyn a disgyblion Ysgol Brynteg, Pen-y-bont ar Ogwr ac Ysgol Pont-y-gwaith yn y Rhondda ganodd y gân wreiddiol yn 1977. Ers hynny rhyddhawyd fersiynau gan y grŵp pop Cymraeg Cic (2002) a Rapsgaliwn (2011).
Gwahoddwyd Geraint i un o'r sesiynau recordio gyda Mei Gwynedd yn ysgolion Caerdydd a'r Fro a dywedodd, "Rwy'n synnu'n gyson bod y gân wedi para mor hir ac yn dal yn fyw i genhedlaeth ar ôl cenhedlaeth o blant. Roedd clywed am fersiwn newydd eto ohoni'n wefr ac yn achos y balchder rhyfedda'!"

***Hoffai'r Dinesydd ddymuno'n dda i bob un o blant a phobl ifanc Caerdydd a'r Fro fydd yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd ddiwedd y mis. Ewch amdani a dewch â llond trol o wobrau'n ôl gyda chi!***


*Disgyblion Ysgol Pencae gyda Mistar Urdd, Mei Gwynedd a Geraint Davies yn ystod eu sesiwn recordio*

## Pobol y Rhigwm

Y dasg o osodwyd ar gyfer rhifyn Mai (tasg 21) oedd llunio limrig yn cynnwys y llinell 'Peth anodd i mi yw heneiddio'.

Daeth cannoedd o gynigion i law, ond bu'n rhaid dethol tri ohonynt i'w cyhoeddi yma. Dyma nhw:

Peth anodd i mi yw heneiddio.
Y coesau a'r cefn yn dirywio.
  Technoleg di-ri
  Sy'n ddirgel i mi,
Ac enwau rwy'n aml anghofio.

***Myfi***

Peth anodd i mi yw heneiddio
Wrth edrych yn syn ar fy eiddo.
  Rhaid gweithredu yn glou,
  Heb lot o ymdroi –
Rhoi nhw bant ac yna'u hanghofio!

***Hirymaros***

Peth anodd i mi yw heneiddio
Wrth weld y rhai ifanc yn joio!
  Ond roedd amser da
  Yn ystod yr ha' –
A'r gaea yw'r adeg i gofio.

***Dros fy ysgwydd***

Y gorau y tro hwn yw cynnig 'Dros fy ysgwydd' sy'n llwyddo i gael y mydr yn iawn, ac sy'n cynnig odl gyrch yn y llinell olaf. Mae'n limrig doniol a thrist ar yr un pryd, ac yn codi gwên yn fwy na llond bol o chwerthin. Diolch i'r tri (a'r cannoedd anghyhoeddedig) a llongyfarchiadau i 'Dros fy ysgwydd'.

**Enillydd tasg rhif 21 yw**
**Doreen Morgan, Caerfyrddin**

Y dasg ar gyfer rhifyn mis Mehefin (tasg 22) yw gweithio pennill telyn neu driban, sy'n cynnwys y llinell hon: **Fe ddaeth yr haf i'r strydoedd...**

Cynigion, yn ôl yr arfer, i law db.james@ntlworld.com erbyn 18 Mai, os gwelwch chi'n dda.

*Emyr Davies*




## Addysg Gymraeg – Ysgol #18 ar y Ffordd

Y newyddion mawr yw bod Huw Thomas, Arweinydd Cyngor Caerdydd, wedi cadw ei addewid i sicrhau y bydd ysgol Gymraeg ar gyfer maestref newydd Plasdŵr lle mae'r tai cyntaf i'w gweld wrth ochr Heol Llantrisant rhwng cyffordd Radur a Rhydlafar. Mae'r Cabinet wedi penderfynu dechrau ymgynghori ar gynllun i agor ysgol newydd ddwy ffrwd ar yr un patrwm ag Ysgol y Creigiau, sef ysgol â ffrydiau yn cynnig addysg mewn cyfryngau ieithyddol gwahanol, sef un Cymraeg ac un Saesneg, y ddwy ffrwd i rannu un campws. Mae 'na un gwahaniaeth i batrwm y Creigiau, sef y bwriad i gynnig dogn o addysg Gymraeg i'r ffrwd Saesneg.

Does dim byd newydd yn y patrwm o gael ffrydiau Cymraeg a Saesneg ar yr un campws yn rhannu rhai adnoddau. Dyna batrwm Melin Gruffydd, Coed-y-Gof a'r Wern pan agorwyd hwy nôl yn 1980/81. Tyfodd Melin Gruffydd i dderbyn safle gwell ar ei phen ei hun a'r Wern wedi tyfu fel cwcw yn nyth aderyn arall, gan wthio Ysgol Cefn Onn i ddifodiant. Y gwahaniaeth rhwng y tair ysgol a dyfodd o Ysgol Bryntaf ac Ysgol y Creigiau a'r un arfaethedig ym Mhlasdŵr yw eu bod yn ysgolion annibynnol o'r ysgolion Saesneg ar yr un campws er eu bod am rai blynyddoedd wedi cael llywodraethwyr ar y cyd. Rwy'n cofio gwasanaethu fel llywodraethwr ar grŵp o 4 ysgol sef Fairwater, Peter Lea, Pentrebane a Choed-y-Gof am flynyddoedd rhwng 1981 a 1988 pryd y daeth "LMS" i sicrhau bwrdd llywodraethol ar wahân i bob ysgol gynradd.

Y gwir plaen yw bod cael ysgol ddwy-ochrog (nid ddwyieithog) fel un Plasdŵr yn cynnig yr unig obaith o gael ysgol Gymraeg yn yr ardal. Y dewis arall oedd cael ysgol Saesneg yn fuan ymysg y tai newydd a bws i Goed-y-Gof ar gyfer unrhyw un oedd am addysg Gymraeg. Ers amser does dim gwasgfa wedi bod am le yng Nghoed-y-Gof ac o fewn 2 flynedd bydd Nant Caerau yn ysgol ddwy ffrwd fydd yn gallu derbyn mwy o blant o Gaerau a Threlái, gan leihau ymhellach y galw am le yng Nghoed-y-Gof. Mae cael darpariaeth gyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg ym Mhlasdŵr i'w groesawu ac nid i'w gondemnio fel sydd wedi digwydd gan rai nad ydynt yn gwybod y ffeithiau ar ôl bod yn llafurio yn y maes ers dros 30 mlynedd. Eleni am y tro cyntaf, mae'r ceisiadau Cymraeg wedi cyrraedd lefel o 20% o'r cyfanswm. Os dyna'r ganran o blant Plasdŵr fydd am addysg Gymraeg, mae cyfartaledd darpariaeth o 50/50 yn yr ysgol newydd yn hael i'r Gymraeg.

Rhaid imi ymddiheuro nad ydwyf yn gallu rhoi manylion am rifau mynediad i'r ysgolion cynradd ar gyfer Medi nesaf ond nid yw'r sir eto wedi paratoi tabl o'r cynigion sydd wedi mynd maes.

*Michael Jones*



## Keith Jones

**12.1.1939-2.3.2019**



Er taw brodor o Aberystwyth oedd Keith, treuliodd y rhan fwyaf o'i oes yng Nghasnewydd a Chaerdydd. Ei swydd gyntaf oedd gyda'r *Welsh Gazette* yn Aberystwyth. Ar foreau rhewllyd, byddai'n gorfod gorwedd ar ei gefn ar y llawr gyda fflam nwy i wneud yn siŵr fod yr inc argraffu yn llifo'n rhwydd.

Pan oedd yn 18 oed, symudodd i'r De i weithio i'r *Penarth Times*, cyn cael ei dderbyn gan y *Western Mail* a'r *South Wales Echo* yng Nghaerdydd ar brawf am wythnos. Estynnwyd y cytundeb i fis - a pharhaodd am chwe blynedd. Bu Keith wedyn yn gweithio i'r *South Wales Argus* yng Nghasnewydd, lle daeth yn ddirprwy olygydd.

Yn 1969, symudodd i'r BBC yng Nghaerdydd a dod yn Brif Gynorthwy-ydd Newyddion. Lansiodd raglen ffôn gyntaf BBC Cymru, sef *Open Line* gyda David Parry-Jones. Yn ddiweddarach, bu'n Brif Gynorthwy-ydd i'r Rheolwr ac yn ysgrifennydd i Gyngor Darlledu Cymru.

Ymadawodd Keith â'r BBC yn 1979 i fod yn Bennaeth Cysylltiadau Cyhoeddus Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr (NFU) yng Nghymru. Yn ystod ei 21 mlynedd gyda'r undeb, cychwynnodd y misolyn *Farming Wales.* Deliodd â nifer o argyfyngau, gan gynnwys clwy'r traed a'r genau, BSE a Chernobyl. Ar un achlysur, trefnodd ddirprwyaeth i gwrdd â Margaret Thatcher yn Downing Street - a'i chyfarch â charcas cig oen o Gymru wedi'i lapio ym maner y Ddraig Goch.

O fewn deufis i ymddeol, roedd unwaith eto yng nghanol bwrlwm y byd cyfryngol; fe'i penodwyd yn Gyfarwyddwr Cyfathrebu i gwmni cysylltiadau cyhoeddus yng Nghaerdydd.

Pan fu farw ei wraig gyntaf, Audrey, yn 1985 gadawyd Keith â dau blentyn, Sally ac Andrew. Yna, cyfarfu ag Eirwen, a fu'n gymar dihafal iddo am dros 30 mlynedd. Mawr fu ei gofal hi a staff Tŷ Llandaf ohono yn ystod ei flynyddoedd olaf pan oedd yn dioddef o afiechyd creulon.

Roedd y gwasanaeth angladdol ar 22 Mawrth yn Eglwys y Crwys, lle bu Keith yn aelod ffyddlon.

*Handel Jones, Rhandir-mwyn*

### Keith

Un gwylaidd hael ei galon, - tywysydd
    llawn cwrteisi'n gyson;
addurn i fyd newyddion
a fu'n gryf drwy yrfa gron.

*Aled Gwyn*

## Ken Kane

**Marw Pensaer a Thiwtor Cymraeg**

Yn 80 oed bu farw Ken Kane, gynt o Abertawe, ar 25 Mawrth. Cynhaliwyd ei angladd yn Amlosgfa Caerdydd a Morgannwg mewn seremoni ddyneiddiol ar 8 Ebrill.


Bu'n bensaer llwyddiannus ac ymhlith ei gynlluniau roedd Canolfan Hamdden Abertawe, a Ken gynlluniodd fathodyn Ysgol Gyfun Glantaf lle bu ei ferch, Haf, yn ddisgybl.

Dysgodd siarad Cymraeg yng Nghanolfan yr Urdd yn Heol Conwy ac yna dechreuodd ddysgu'r iaith i eraill a chael hwyl arni, ac felly daeth nifer o bobl yn ei ddosbarthiadau yn rhugl diolch i'w frwdfrydedd a'i gariad at yr iaith.

Gwelir ei eisiau a chydymdeimlir â'i deulu yn Nhreganna a Phenfro yn eu colled fawr.

## Dadorchuddio Plac Glas er cof am Syr Cyril Fox

Bnawn Sadwrn, 13 Ebrill, daeth nifer ynghyd o flaen "Four Elms" yn Heol Wen, Rhiwbeina, i weld Charles Scott Fox, mab Syr Cyril Fox, yn dadorchuddio plac ar wal hen gartre'r teulu. Trefnwyd y seremoni a'r Plac Glas gan Gymdeithas Ddinesig Rhiwbeina a dyma'r pedwerydd Plac Glas i ymddangos ar dai yn y pentre. Y lleill yw cofeb i'r hanesydd lleol Edgar Chappell; y bardd, y llenor a'r curadur Dr Iorwerth Peate; a'r llenor Dr Kate Roberts.




Cafodd Syr Cyril Fox ei eni yn Chippenham yn Wiltshire ac astudiodd Archaeoleg yng Ngholeg Magdalene yng Nghaergrawnt, ac yno yn 1924 fe'i apwyntiwyd yn Geidwad yn Adran Archaeoleg ein Hamgueddfa Genedlaethol ym Mharc Cathays. Ymhen dwy flynedd wedyn fe'i penodwyd yn Gyfarwyddwr yr Amgueddfa. Ymddeolodd yn 1948 ac aeth y teulu i fyw yng Nghaerwysg. Bu'n amlwg ym myd Archaeoleg am flynyddoedd a derbyniodd sawl anrhydedd a chydnabyddiaeth o'i waith yn y maes hwn.

Yn dilyn y seremoni, cynhaliwyd te pnawn yng Nghanolfan Beulah yn Rhiwbeina.

# Gwylio'r Geiniog

*"Mae blwyddyn dreth newydd wedi cychwyn ar 6 Ebrill."*

## Huw Roberts



Gyda'r Gwanwyn yma, mae blwyddyn dreth newydd wedi cychwyn ar 6 Ebrill, 2019. Mae'r lwfans personol yn codi o £11,850 i £12,500 gyda'r man cychwyn talu treth @ 40% yn codi o £46,350 i £50,000. Bydd y mwyafrif o drethdalwyr yn derbyn £130 ychwanegol, gyda £860 i'r rhai sydd yn talu treth @ 40%.

Os ydych yn perchen ar fflat, neu â pherthnasau mewn oed sydd wedi perchen eu fflat am nifer fawr o flynyddoedd, cymerwch gip ar hyd y les. Os oes llai na rhyw 70 o flynyddoedd ar ôl, estynnwch y les neu byddwch yn cael problemau sylweddol pan mae'r amser yn dod i werthu'r fflat.

*Mae Huw yn gyfrifydd sy'n arbenigo mewn treth incwm, ewyllysiau a gwaith profiant.*

**Gofynnwch i Huw** : Hoffwn brynu ail dŷ fel buddsoddiad. Gallaf roi swm sylweddol lawr ond mae angen tua £25,000 dros 5 mlynedd.

Gallwch edrych ar ail-forgeisio eich cartref os oes gennych forgais isel; neu ystyried morgais "Buy to Let" ond bydd costau ychwanegol gyda'r morgeisi hyn. Ystyriwch yn lle fenthyciad syml o gwmni fel Tesco i fyny @ £25,000 gyda llog @ 3% a dim costau ychwanegol a gweinyddiaeth syml. Gall hyn hefyd fod yn fanteisiol am welliannau i'r cartref, benthyciad modur ayb.

*Os oes gennych gwestiwn cyffredinol am y golofn, anfonwch e-bost at huwrobertsaccountant@gmail.com neu drwy www.huwrobertsaccountant.cymru neu ffoniwch 029 2069 4524.*

# Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd

Yn ystod mis Ebrill, trawsnewidiwyd festri Minny Street yn fôr o gerddoriaeth wych a fu'n ysbrydoliaeth i'r aelodau diolchgar. Yn y cyfarfod cyntaf, y triawd telyn *Trio Eto* – Sian Thomas, Ann Williams a Llinos Metcalf – fu'n dangos eu talent anghygoel a'u harmoni soniarus mewn rhaglen amrywiol. Gwrandawyd ar alawon gwerin Gwyddelig, Cymraeg a Saesneg a gyflwynwyd gydag esboniadau a hanesion diddorol gan Sian. Hefyd, clywyd cerddoriaeth glasurol boblogaidd, gan wneud y rhaglen yn un gyflawn a bythgofiadwy.

Ar ddydd Mercher Ebrill 24, cyflwynwyd rhaglen flynyddol hirddisgwyliedig gan fyfyrwyr Dennis O'Neill o'r Academi Llais Rhyngwladol, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. Eleni dwy soprano, Stephanie Smith o Abergwaun ac Olivia Gomez o Gaerdydd a'r cyfeilydd Laura Deenik o Don Pentre fu'n diddori'r aelodau. Aed i fyd yr opera mewn gweithiau unigol a deuawdau gan Offenbach, Mozart, Delibes a Massenet ac amryw o weithiau Cymraeg gan Dilys Elwyn Edwards, Rhys Jones, Meirion Williams ac eraill. Bu'n brynhawn arbennig yng nghwmni tair merch ifanc, hapus a dawnus. Roeddent i'w hedmygu gan bawb sy'n sicr bod dyfodol disglair iawn iddynt.



***Stephanie Smith, Olivia Gomez a Laura Deenik***

## Y Cyfryngau Cymdeithasol

**Cadwch mewn cysylltiad â'r Dinesydd ar Twitter trwy ddilyn ein cyfrif newydd @DinesyddCdydd, ac ar Facebook trwy ddilyn www.facebook.com/YDinesydd**

# Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina

Bethan Rhys Roberts, y newyddiadurwr, fu'n annerch ar 15 Ebrill. Yn gwmni iddi roedd Dyfed, dyn camera. Cyn dechrau ei sgwrs, bu Bethan ac yntau'n crwydro ymysg y gynulleidfa niferus ac yn holi sawl un am eu hymateb i Brexit, cyn i Bethan roi cyfweliad i "Theresa May", un o selogion y gymdeithas. Erbyn diwedd y noson, roedd Dyfed wedi llwyddo i drosglwyddo'r cyfan yn eitem newyddion a'i dangos ar gyfrifiadur. Gwyrth ein hoes dechnolegol! Diolch i'r drefn, doedd neb a holwyd am weld Brexit digyfaddawd a didrugaredd.

Soniodd Bethan am ei hawydd er yn blentyn naw oed i ymhél â chasglu newyddion. Y pryd hwnnw, byddai'n paratoi papur newydd yn llawn helyntion teuluol. Erbyn hyn, wrth gwrs, mae hi'n teithio'r byd ac wedi cael y gwaith o holi sawl arweinydd enwog a drwg-enwog. Mae'n ymwybodol o'r cyfrifoldeb sydd ar rai fel y hi i fod yn gydwybodol, yn ddiduedd ond yn heriol er mwyn cael at y gwir. Rhaid bod yn barod i ruthro er mwyn cyrraedd y man lle mae'r stori, ac ar ôl cyrraedd mae'n rhaid, yn aml, fod yn barod i ddisgwyl, a hynny am oriau bwygilydd.

Bu'n dyst i ddigwyddiadau dirdynnol, argyfyngus a thruenus lle roedd dioddefaint enbyd. Ymwelodd â thref ym Macedonia lle cynhyrchir newyddion ffug a'i drosglwyddo am arian mawr i wefannau'r byd. Daeth y sefyllfa hon â geiriau'r Americanwr, Gore Vidal, i'n cof,



Bethan Rhys Roberts

"Rhaid cofio bod bron popeth a glywn am wledydd eraill yn anghywir, a bod yr hyn a glywn amdanom ni'n hunain, ein gallu mawr a bod pawb yn ein caru, yn gelwydd".

Ymysg y dyrfa ddaeth ynghyd roedd sawl un o edmygwyr neu ffans Bethan. Yn eu plith roedd Heulwen ac Eluned, Helen, Colin a Nia.

# Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Bydd ein rhaglen am 2018/19 yn dod i ben ar nos Lun, Mai 20fed am 7.30 yr hwyr yn ystafell G07 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd pan fyddwn yn croesawu Derith Rhisiart i'n hannerch. Byddwn hefyd yn cynnal ein cyfarfod cyffredinol blynyddol. Croeso i bawb.

Braf oedd agor tudalennau rhifyn Gwanwyn y cylchgrawn *Advances Wales* a ddaeth i'n tŷ ni yn ddiweddar. Rwy'n cael blas ar y cyhoeddiad lliwgar, dwyieithog hwn gan Lywodraeth Cymru; daw yn rhad ac am ddim ar ffurf copi caled neu ar-lein. Cysylltwch gyda Jennifer Clark ar innovation@gov.wales neu dros y ffôn ar 03000616040. Ceir crynodebau hwyliog am lu o weithgareddau ymchwil a datblygiad ar nifer o destunau gwyddonol mewn sefydliadau ar draws Cymru. Y tro hwn glaniodd fy llygaid ar y canlynol.

Mae cwmni biotechnoleg Bionema o Abertawe wedi creu magl pryfed i frwydro yn erbyn chwilod yr haf, sy'n gyfrifol am ddifrod sylweddol i laswellt a thyweirch ar gwrs golff.

Mae gwyddonwyr yn adran Ffiseg Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Queensland yn arloesi dull newydd, mwy sensitif, i fesur tonnau uwchsain. Mae gan uwchsain ystod eang o gymwysiadau, megis, yn y maes meddygol ar gyfer archwilio merched beichiog ac ar gyfer delweddu biofeddygol cydraniad i ganfod tiwmorau. Fe'i defnyddir hefyd at ddelweddu gwrthrychau tanddwr a cherbydau awyr di-griw.

Mae'r cwmni Oseng-Rees Reflection yn Abertawe wedi datblygu ffordd arloesol o ailgylchu poteli gwydr i wneud paneli addurnol, cynaliadwy ar gyfer cymwysiadau pensaernïol. Fel rheol, mae'r poteli hyn yn cael eu pentyrru mewn sgip a'u trawsnewid yn gynnyrch isel ei werth megis agregau. Mae'r datblygiad newydd yn anelu at ddefnydd mwy amrywiol, gan ddefnyddio llai o egni.

Mae partneriaeth rhwng Prifysgol Caerdydd a'r cwmni Sequestim yn datblygu sganiwr teithwyr mewn maes awyr, gyda'r bwriad o gyflymu trosglwyddiad teithwyr tra'n cynnal diogelwch. Amcangyfrifir bod 12 miliwn o bobl yn teithio mewn awyren bob dydd ar draws y byd. Disgwylir y bydd y nifer yn dyblu mewn 20 mlynedd. Felly mae amcan y bartneriaeth yn greiddiol.

Ewch ati i gael eich copi o *Advances Wales*.

A nawr am rywbeth gwahanol.

Dewiswch unrhyw rif. Adiwch ato y rhif nesaf i fyny. Adiwch 9. Rhannwch gyda 2. Tynnwch i ffwrdd y rhif cychwynnol. Sawl bys sy ar eich troed chwith? Mmm!

*Neville Evans*

# Côr Meibion Taf

## CMT a Chôr y Penrhyn ar y cyd unwaith eto

Yn dilyn cyngerdd llwyddiannus ar y cyd yng Nghapel Salem y llynedd, pan ymwelodd Côr y Penrhyn â'r brifddinas i ganu yn y stadiwm, teithiodd Côr Meibion Taf i'r gogledd ddydd Sadwrn 30ain Mawrth ar gyfer yr *away fixture* fel petae. Cynhaliwyd yr ail gyngerdd yma yng nghapel mawr Jerwsalem ym Methesda. Cafwyd croeso gwresog gan yr Howgets a derbyniodd ein harweinydd, Steffan Jones a'n cyfeilydd, Lowri Guy ganmoliaeth haeddiannol am lwyddo i gyflwyno rhaglen amrywiol a safonol. Cafodd yr aelodau gyfle i gymdeithasu yng nghwmni hen ffrindie erbyn hyn - ambell adran yn fwy eiddgar na'r gweddill i fanteisio ar y lletygarwch. Ond dychwelodd pawb yn ddiogel i baratoi ar gyfer cyngerdd arall yn Llanarthne o fewn pythefnos.

Yn ogystal â chanu a dogn o ddiwylliant, trefnwyd gornest golffio ar batrwm Cwpan Ryder rhwng y ddau gôr - 5 pâr o CMT yn erbyn 5 pâr o Gôr y Penrhyn. Trist yw gorfod adrodd i dîm yr ymwelwyr golli o 3.5 i 1.5. Ond mae pawb yn gwybod fod rhaid ennill 12 pwynt i ennill y Cwpan, felly rhaid curo'r tro nesa!

'Taith i'w thrysori' ys dwedodd ein harweinydd.






***Golffwyr CMT o flaen Clwb Sant Deiniol, Bangor a'r côr yn canu yn y gyngerdd***

# Merched y Wawr Bro Radur

Cawsom noson hwyliog dros ben yng nghwmni criw o ddysgwyr yn ystod ein cyfarfod ym mis Ebrill. Eirian Dafydd fu'n arwain y gweithgareddau a chawsom ein herio gyda thair rownd o bosau a chwis hwyl. Tybed faint ohonoch chi sy'n gallu nodi blwyddyn 'Y Gadair Ddu', blwyddyn ffurfio'r Opera Cenedlaethol, ac ym mha flwyddyn y ganwyd Williams Pantycelyn? Cawsom ffotograffau o wyth o glociau mewn trefi gwahanol yng Nghymru a rhaid oedd enwi'r lleoliad – rhai yn fwy cyfarwydd na'i gilydd.

I goroni'r noson cawsom gwmni Meirwen Lloyd, ein Llywydd Cenedlaethol. Yn ystod cyfnod ei llywyddiaeth mae hi'n ceisio ymweld â nifer o ganghennau ledled Cymru. Dymunodd yn dda i ni gyda'n trefniadau ar gyfer Gŵyl Wanwyn y Rhanbarth yng Nghwrt Insole. Ysgogodd ni i fod yn barod i ysgwyddo swyddi o fewn y mudiad, ac fe ddywedodd nad oedd hi erioed wedi chwennych bod yn Llywydd Cenedlaethol, mai aelod cyffredin oedd hi fel pob un ohonom. Cawn gwmni Meirwen eto yn o fuan yn ystod gweithgareddau Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn y Bae ac yn ystod Tafwyl.



***Meirwen Lloyd***

Ar ôl noson 'Fy Hoff Drysor' yng nghwmni nifer o'n haelodau ym mis Mai, byddwn yn mynd allan am ginio canol dydd i ddathlu diwedd y tymor ar 5ed Mehefin yn 'The Orchard' yn Radur.

# Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd

Y gŵr gwadd yng nghyfarfod mis Ebrill oedd y Dr Hefin Jones, y '…deon wyddonydd/ Â hyder ffaith dyfnder ffydd' (Llŷr Gwyn Lewis) a brodor o Bencader, cyn-ymchwilydd sydd erbyn hyn yn Uwch-ddarlithydd ym Mhrifysgol Caerdydd a Deon y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, a chyn-enillydd Medal Wyddoniaeth a Thechnoleg yr Eisteddfod Genedlaethol. Mae wedi gwneud gwaith ymchwil helaeth ym maes newid hinsawdd a'i effaith ar fioamrywiaeth. Disgrifir ef fel darlithydd ysbrydoledig sydd wedi bod yn flaenllaw wrth sicrhau cyfleoedd i fyfyrwyr astudio gwyddoniaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.



*Hefin Jones*

Eglurodd Hefin ar ddechrau ei anerchiad ei fod wedi cymryd arweiniad y bobl ifanc aeth ar streic i dynnu sylw at sefyllfa'r amgylchedd. Mae eu hachos yn un hollbwysig, yn hollol deilwng a chyfiawn, a'u gweithredoedd yn haeddu ein hedmygedd. Dalient ati! Aeth Hefin ymlaen i edrych ar dair her amgylcheddol sy'n ein hwynebu yma yng Nghymru, tair her mae'n rhaid i ni wneud rhywbeth yn eu cylch: newid hinsawdd, rhywogaethau ymledol, a llygredd plastig.

Newid ym mhatrymau tywydd y Ddaear yw newid hinsawdd, a hynny dros ddegau o filiynau o flynyddoedd. Ceir tywydd eithafol, gwyntoedd cryfach, newidiadau mewn gwlybaniaeth, ac y mae ffactorau naturiol yn achosi'r newid hwn. Ond gwyddom y gall gweithgareddau dynol hefyd achosi newid sylfaenol yn yr hinsawdd. Sut hinsawdd fydd yng Nghymru erbyn 2080 tybed? Rhagwelir y bydd tymheredd blynyddol cyfartalog Cymru rywle rhwng 1.5 a 4.0 gradd yn uwch. Gwelir y newid mwyaf mewn tymheredd yn y gaeaf. Credir y bydd Cymru rywle rhwng 7 a 24% yn wlypach, ond bydd ein hafau 7 – 14% yn sychach. Disgwylir i lefelau'r môr godi ar gyfartaledd tua 12cm erbyn 2030 a 50cm erbyn 2050. Gall y cyfan wrth gwrs fod yn gwbl gamarweiniol os bydd llwybr Ffrwd y Gwlff yn newid cyfeiriad!

Beth a olygir gan rywogaeth ymledol? Planhigyn, anifail, ffwng neu facteriwm sy'n medru lledaenu gan achosi difrod i'r amgylchedd, yr economi, ein hiechyd a'n ffordd o fyw. Er enghraifft, beth yw rhan y gwningen yn hyn i gyd? Mae'n anifail estron gan mai'r Rhufeiniaid gyflwynodd hi i Ynysoedd Prydain gyntaf. Ni fu i'r cwningod gynyddu'n ormodol gan fod digon o lwynogod, ffwlbartod, carlymod, bele coed, bwncathod a barcutiaid i'w cadw dan reolaeth. Wrth i'r creaduriaid ysglyfaethus hyn gael eu difa gan giperiaid yn y 19eg ganrif, cynyddodd y cwningod yn bla erbyn dechrau'r 20fed ganrif. Newidiodd pethau'n llwyr yn ystod haf gwlyb 1954 pan ledodd y clwy myxomatosis drwy'r wlad. Erbyn 1955 roedd 98% o gwningod Cymru yn gelain. Planhigyn ymledol sydd bellach wedi ennill ei thiriogaeth yw'r rhododendron. Cyflwynwyd y planhigyn hwn o Benrhyn Iberia ym 1763, ac erbyn hyn mae wedi lledaenu ar draws ein gwledydd. Mae'n gwahardd golau rhag treiddio drwy ei dyfiant a hefyd mae'n cario afiechydon ffwng sy'n medru heintio a lladd rhywogaethau cynhenid o goed. A beth am her y Canclwm Siapaneaidd? Mae plannu'r rhywogaeth yn drosedd!

Pwnc arall y mae pawb yn siarad amdano ar y foment yw plastig. Nid yw Cymru'n osgoi'r gwastraff sy'n llifo i mewn gyda'r llanw: gwellt yfed, poteli, cwpanau coffi, weips, brwshys dannedd – mae plastig untro yn symbol amlwg o'n cymdeithas 'taflu-i-ffwrdd' a'r niwed mae'n ei wneud i'n byd. Gwyddom fod y plastig hwn yn lladd anifeiliaid megis morfilod, pysgod a chrwbanod môr. Mae un amcangyfrif yn awgrymu bod 12.2 miliwn o dunelli o blastig yn mynd i'r amgylchedd morol bob blwyddyn.

Ar derfyn ei anerchiad rhybuddiodd y siaradwr fod yr hyn a wnawn heddiw yn mynd i effeithio ar y byd y bydd ein plant a phlant ein plant yn byw ynddo. Buom yn claddu ein pennau yn y tywod am flynyddoedd lawer. Pa ryfedd fod ein pobl ifanc yn gofidio?

# Côr Philharmonig Caerdydd

Llongyfarchiadau i Gôr Philharmonig Caerdydd wrth ddathlu deugain mlynedd ers ei sefydlu ym 1979, a diolch i Alun Guy am ei ymroddiad a'i egni fel arweinydd o'r dechreuad hyd heddiw. Alun oedd arweinydd Côr Aelwyd Caerdydd yn ystod y chwedegau a'r saithdegau. Bu'r côr yn llwyddiannus iawn, gan ennill gwobrau dros y blynyddoedd yn Eisteddfodau'r Urdd a hefyd yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Ym 1978 cafodd Alun y swydd o arwain Côr yr Eisteddfod, ac o blith aelodau'r côr hwnnw y daeth Côr Philharmonig Caerdydd i fodolaeth.

Cynhelir cyngerdd i ddathlu'r pen-blwydd ar Fai 11 am 7.30 yn Eglwys Dewi Sant, pan fydd y côr yn perfformio gwaith gan Eric Jones a gomisiynwyd yn arbennig ar gyfer yr achlysur. Teitl y darn yw 'Rhuad y Ddraig' ac awdur y geiriau yw'r cyn-Archdderwydd Christine James sydd hefyd yn aelod o'r côr. Mae ei cherdd yn olrhain hanes Cymru drwy'r oesoedd ac yn clodfori'r iaith Gymraeg sydd wedi parhau trwy bob anhawster. Bydd y côr hefyd yn perfformio'r Requiem gan Mozart.

Mae'r côr yn ymarfer bob nos Fercher am 7.30 yn Eglwys Dewi Sant ac mae croeso cynnes i aelodau newydd.

# Merched y Wawr Caerdydd

Croeso digymysg a brwd oedd gan aelodau'r gangen, sy'n wylwyr selog *Prynhawn Da* ar S4C, i ymweliad Yvonne Evans ar 9 Ebrill. Roedd hithau wrth ei bodd ymysg sawl un a fu'n rhan o'i bywyd mewn coleg ac ysgol yn y gorffennol. Yn ei dull cyfeillgar a gwresog, soniodd Yvonne am sawl person diddorol y cwrddodd â nhw dros y blynyddoedd. Roedd rhai o'i hardal enedigol yn Aberaeron ac eraill yn sgil eitemau a ymddangosodd ar *Prynhawn Da*.

Mae ystod eang i'w diddordebau a gall gyfathrebu'n rhwydd ar bynciau o bob math. Ar un llaw, soniodd am gymeriadau sy'n cofio Aberaeron pan gedwid moch yn y gerddi a'u rhochian yn diasbedain trwy'r ardal ac, ar y llaw arall, am ymchwilydd meddygol arloesol o Lanelli a fydd, gobeithio, yn dod o hyd i ffordd i wella clefydau cas.

Bu'n rhan o staff y BBC ar un cyfnod a chafwyd blas ar wrando straeon ei chydweithio â sawl personoliaeth anghyffredin. Bu'n rhannu cyfrinachau cyflwyno'r tywydd a'r modd y cafodd hyfforddiant i wneud hynny'n effeithiol.

Llongyfarchiadau i Non Jones, Cyncoed. Dathlodd hi a Henry eu priodas ddiemwnt (60) ddiwedd Mawrth.



***Yvonne Evans gyda'r merched***

# Cymdeithas Edward Llwyd

## Castell Carreg Cennen

Un o'n teithiau mis Mawrth oedd o amgylch Castell Carreg Cennen yn Sir Gaerfyrddin, un o'n cestyll ni yn wreiddiol, ond fel llawer o gestyll Cymreig neu Normanaidd un a wnaeth newid perchnogaeth fwy nag unwaith. Castell ysblennydd yw hwn yn eistedd yn urddasol ar ben craig uchel. Mae'n edrych i lawr ar ran helaeth o'r sir a dim ond rhywun â chalon gref fyddai'n gallu cyrraedd y safle ac wedyn ymosod.

Mae tarddiad Afon Llwchwr bron o fewn tafliad carreg ond nid fel nant fechan mae'r afon yma yn codi - yn hytrach fe allech ddweud bod yr afon yn dechrau yn ei haeddfedrwydd. Calchfaen yw carreg yr ardal ac mae'r Llwchwr yn byrlymu o'r ddaear ac yn sbrintio ar ras tuag at y môr o'r dechrau. Tua phedair milltir oedd hyd y daith ond roedd mwy na thipyn o ddringo i ddeffro ein cyhyrau. Llawer o ddiolch i John Harri ein harweinydd. Am adroddiad llawn am y daith ewch at:http://www.gydangilydd.cymru/carregcennen.htm

Yma yn y de, bydd ein teithiau rhwng canol mis Mai tan ganol mis Mehefin yn mynd â ni i ardal Aberdaugleddau, Pencader, Machynlleth a Llangadog. Croeso i chi ymuno â ni, mae manylion llawn ar ein gwefan: http://
cymdeithasedwardllwyd.cymrugweithgareddaur-de/



# Y Gymraeg yng Nghanol Caerdydd (3)

## *Taith o'r Castell heibio i Borth y Dwyrain*

E. Wyn James

Dyma wahoddiad arall i chi fynd am dro o gwmpas rhan o ganol dinas Caerdydd. Fel yn achos y ddwy daith flaenorol, ein bwriad fydd canolbwyntio'n arbennig ar fannau arwyddocaol o safbwynt y Gymraeg. Ymddangosodd y daith gyntaf yn rhifyn Awst 2018 o'r *Dinesydd*. Taith yng nghyffiniau Porth y Gorllewin oedd honno. Cyhoeddwyd yr ail daith yn rhifyn Rhagfyr 2018/Ionawr 2019, a honno'n mynd o'r Castell i lawr ochr orllewinol afon Taf ac yna draw at Borth y De. Yn achos y drydedd daith hon, dechreuwn eto ger y Castell, ond y tro hwn awn i gyfeiriad Porth y Dwyrain.

******


Cychwynnwn wrth brif fynedfa'r Castell a mynd tua'r dwyrain ar hyd Heol y Dug – neu yn gywirach, efallai, 'Heol yr Hwyaid', oherwydd er i rai awgrymu iddi gael ei henwi ar ôl Robert Curthose, Dug Normandi (mab hynaf Gwilym Goncwerwr), a garcharwyd yng Nghastell Caerdydd rhwng 1126 a'i farw yn 1134, mae'n fwy na thebyg mai 'Duck Street' oedd enw gwreiddiol 'Duke Street'.

Yn y *Gentleman's Magazine* yn 1794 cyhoeddodd rhyw Edward Williams gerdd mewn Cymraeg hynafol y dywedodd iddo ei gweld mewn hen lawysgrif yn ardal y Bont-faen. Fe'i lluniwyd, meddai, gan Robert, Dug Normandi, pan oedd yn y carchar yng Nghaerdydd, ac esboniodd fod Robert wedi dysgu Cymraeg pan oedd yno ac wedi dod yn gyfeillgar â'r beirdd Cymraeg a ymwelai â'r Castell. Cerdd ydyw sy'n cyfarch derwen a welai Robert o'r Castell, derwen a oedd (meddai'r gerdd) 'ar dir pen gallt, ger ymdonn Môr Hafren', sef ar 'the woody promontory of Penarth' yn ôl Edward Williams. Cyhoeddwyd cyfieithiad Saesneg Taliesin Williams o'r gerdd gan Charlotte Guest mewn nodyn yn ei chyfieithiad dylanwadol hi o'r Mabinogion, ac mae rhai academyddion hyd heddiw yn ei thrin fel cerdd ddilys gan Robert, Dug Normandi, heb sylweddoli mai'r Edward Williams a'i hanfonodd i'r *Gentleman's Magazine* oedd neb llai na'r ffugiwr medrus, Iolo Morganwg – a fu ei hun yn y carchar yng Nghaerdydd am flwyddyn gron o Awst 1786 ymlaen oherwydd ei ddyledion.

******

Yn Awst 1831 agorodd John a Llewelyn Jenkins (meibion y gweinidog Bedyddiedig, yr awdur a'r argraffydd, Dr John Jenkins, Hengoed) swyddfa argraffu yn Heol Bute yng Nghaerdydd. Symudodd y swyddfa honno yn 1832 i adeilad ar ochr ogleddol Heol y Castell (a ddymchwelwyd yn 1877), ac erbyn 1835 roedd hi wedi symud eto, i adeilad ar ochr ogleddol Heol y Dug, a ddymchwelwyd (fel yr adeiladau eraill ar ochr ogleddol yr heol) yn 1923.

Rhwng Chwefror 1833 a Rhagfyr 1837 bu gwasg y brodyr Jenkins yn gyfrifol am gyhoeddi'r cylchgrawn *Greal y Bedyddwyr*. Wedi ymgyrch hir, llwyddwyd yn 1807 i gael Senedd Prydain i ddileu'r fasnach mewn caethion, ond roedd yn parhau yn gyfreithlon i gadw caethion yn nhiriogaethau tramor Prydain. Yna, yn 1823, dechreuwyd o ddifrif ar ymgyrch i ddileu caethwasiaeth yn Jamaica a thiriogaethau eraill Prydain. Arweiniodd hynny at wrthdaro ffyrnig rhwng perchnogion y caethweision a chenhadon y Bedyddwyr ar yr ynys (gan gynnwys y siaradwraig Gymraeg o Bont-y-pŵl, Mary Knibb), a gefnogai achos y caethion. Darlunnir y gwrthdaro hwnnw, a'r driniaeth greulon a ddioddefai'r caethion ar law eu meistriaid, yn fyw iawn mewn baled yn dwyn y teitl, *Hanes, Cyffes, Achwyniad, Anerchiad, a Dymuniad y Negroes*, a argraffwyd gan y brodyr Jenkins tua 1832. Defnyddiwyd hefyd eu cylchgrawn *Greal y Bedyddwyr* i ymosod yn llym ar gaethwasiaeth, a rhoddwyd croeso brwd ar ei dudalennau i'r newydd fod deddf i ddileu'r 'drwg erchyll a dieflig hwn' wedi mynd trwy Senedd Prydain yn Awst 1833.




Roedd John Jenkins wedi gadael Caerdydd cyn i'r argraffty symud i Heol y Dug, oherwydd ym mis Medi 1834 aeth yn genhadwr i Morlaix yn Llydaw, lle y bu'n gyfrifol am gyhoeddi nifer o lyfrau a llyfrynnau yn y Llydaweg, gan gynnwys cyfieithiad o'r Testament Newydd a llyfr emynau, a lle y bu farw yn 1872; ond parhaodd ei frawd, Llewelyn, i argraffu yn Heol y Dug nes iddo ymddeol yn 1844 a symud i Bontnewydd yn sir Fynwy. Fe brynwyd y busnes gan un o'r gweithwyr, Bedyddiwr Cymraeg arall o'r enw William Owen (1813–95), a symudodd yn ifanc i Gaerdydd o sir Benfro ac a fu'n rhedeg y wasg yn Heol y Dug (gan gynnwys bod yn olygydd cylchgrawn *Y Bedyddiwr*) tan 1854, pan aeth yn weinidog i eglwys newydd y Bedyddwyr Cymraeg yn Heol Llandaf, Treganna.

Fel mae'n digwydd, nid John Jenkins oedd yr unig Fedyddiwr Cymraeg i adael Caerdydd i genhadu yn

Llydaw. Brodor o Rosllannerchrugog oedd Caradoc Jones (1875–1969), a fu'n genhadwr yn Llydaw rhwng 1920 ac 1967, ond rhwng 1907 ac 1920 gweinidogaethai gyda'r Bedyddwyr yn y Maendy a Gabalfa. Derbyniodd ei genhadaeth yn Llydaw gefnogaeth gref gan nifer o bobl yng Nghaerdydd, nid lleiaf gan aelodau'r Tabernacl, eglwys y Bedyddwyr Cymraeg ar yr Ais.

Rhai o'r rhai mwyaf hael a brwd eu cefnogaeth o blith aelodau'r Tabernacl oedd Morgan a Sarah Ann Davies, a Morgan Davies oedd un o'r rhai a gymerodd ran yn y seremoni i osod cerrig sylfaen y capel a godwyd yn Paimpol yn 1930 ar gyfer gwaith cenhadol Caradoc Jones. Cadwai Mr a Mrs Davies siop ddillad a dodrefn o'r enw 'Bon Marché' yn Heol y Crwys. Roedd canghennau hefyd yn yr Eglwys Newydd, Trelái a'r Sblot, ac mewn hysbyseb ar gyfer eu siopau yn *Rhaglen Swyddogol* Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 1938, cyhoeddir mewn llythrennau bras: 'Ym mhob cwr o'r ddinas ceir ein ystordai lle y siaredir Cymraeg.' Mae aelodau o'r teulu'n parhau i gyfrannu i fywyd Cymraeg Caerdydd heddiw.

******

Roedd yr arwydd 'Cymry a Chymraeg i mewn' i'w weld tan o leiaf 1905 ar dafarn y 'Glove & Shears', a safai ger cornel dde-ddwyreiniol y Castell, ond a ddymchwelwyd yn 1923, fel yr adeiladau eraill ar ochr ogleddol Heol y Dug, er mwyn lledu'r ffordd o flaen y Castell. Am flynyddoedd bu'r dafarn honno'n gyrchfan boblogaidd i siaradwyr Cymraeg. Y tafarnwr o ddechrau'r 1850au hyd yr 1880au oedd John Williams, a fu farw yn 1890 yn 70 oed. Roedd yn eisteddfodwr brwd. O'i dafarn ef y gorymdeithiodd y beirdd, gyda band pres yn eu harwain, i gynnal gorsedd ym Mharc Cathays ar ddechrau Eisteddfod Gadeiriol Deheudir Cymru ym mis Medi 1879 (yr eisteddfod genedlaethol gyntaf i'w chynnal yn ne Cymru oddi ar 1867), ac ef a roddodd fedal arian yn yr eisteddfod honno yn wobr ar gyfer cerdd er cof am y bardd Islwyn. Mab ydoedd i 'Gwilym Morganwg' (Thomas Williams, 1778–1835), bardd a gadwai dafarn ym Mhontypridd ac a ddaeth yn drwm o dan ddylanwad Iolo Morganwg a'i syniadau derwyddol.

Yn y *Weekly Mail* ar gyfer 1 Mai 1886, ymddangosodd cerdd hir a hwyliog gan 'Nathan Dyfed' – sef Jonathan Reynolds (1814–91) o Ferthyr Tudful – o dan y teitl 'Gwibgerdd', yn adrodd helyntion saith Cymro a aeth ar bererindod o Westy'r 'Faneg a'r Gwellaif' yng Nghaerdydd drwy Fro Morgannwg i ymweld â bedd Iolo Morganwg a'i fab, Taliesin, yn Nhrefflemin, a hynny 'ar ddiwrnod gwlybyrog, y 12eg o Awst, 1885'. Ymhlith y pererindotwyr, yn ogystal â Nathan Dyfed a John Williams y tafarnwr, roedd Bassett E. Thomas (1816–90), brodor o ardal Llancarfan yn y Fro a fu'n weinidog gyda'r Bedyddwyr mewn amryw fannau ym Morgannwg cyn ymddeol i Gaerdydd; George Watson, a gadwai Westy'r 'Clifton' yn y Rhath; a'r newyddiadurwr, David Tudor Evans ('Ap Tudor'; 1822–96), ysgrifennydd Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 1883 ac un o brif hyrwyddwyr yr ymgyrch i gael Eglwys Anglicanaidd Gymraeg ei hiaith yng Nghaerdydd, sef Eglwys Dewi Sant, a agorwyd yng Ngerddi Howard yn 1891 ac a symudodd i'w hadeilad presennol yng Nghilgant Sant Andreas yn 1956.




***Carreg ar gapel Caradoc Jones yn Paimpol***
***Llun: Euros Rhys (trwy garedigrwydd Mrs Sian Morgan Thomas, wyres i Mr a Mrs Davies)***

Dwy flynedd a hanner wedi'r wibdaith honno i Drefflemin, boddwyd un o griw barddol y 'Faneg a'r Gwellaif' yng Nghamlas Morgannwg mewn amgylchiadau amheus. William Morgan oedd ei enw – neu 'Gwilym Brycheiniog', a rhoi iddo ei enw barddol – masnachydd mewn calch o Dongwynlais, a oedd wedi dod i Gaerdydd i gasglu arian a oedd yn ddyledus iddo; ac meddai 'Gwyliedydd' (sef D. Tudor Evans) yn y *Western Mail*: 'A noted character among the bardic fraternity met his death by drowning in the Glamorganshire Canal at Cardiff on Saturday [11 Chwefror 1888]. The frequenters of the Glove and Shears, Duke-street, on Saturday afternoons are familiar with the form and peculiarities of the late bard, and have often been amused with his sallies of wit and eloquence. […] His bardic productions were mainly of the englyn or rhyming kind. He was more a relic of the "clerwyr" of the past than a representative of modern bardism.'

******

O droi tua'r gogledd wrth gornel dde-ddwyreiniol y Castell i mewn i Ffordd y Brenin, deuwn ar ein hunion bron i'r fan lle y safai Porth y Gogledd gynt – Porth Senghennydd. Mae dau ddarn o waliau'r hen dref gaerog a oedd o boptu i'r porth hwnnw i'w gweld o hyd. Mae'r naill yn cynnal gwely blodau ger y Castell. Mae'r darn arall, sydd dipyn mwy o faint, ar ochr arall y ffordd, yn y lôn sydd y tu cefn i adeilad 'Northgate'.

Ond yn lle troi am y gogledd, awn yn syth ymlaen o Heol y Dug i mewn i Heol y Frenhines a heibio i'r gofgolofn i Aneurin Bevan (1897–1960) sydd mor hoff gan wylanod (!), a lle gynt y bu cylch ymladd teirw. Mae Cymreigrwydd enw'r gwleidydd o Dredegar yn ein hatgoffa o ba mor bwysig oedd cyfraniad Cymru i ddatblygiad y wladwriaeth les ym Mhrydain, nid yn unig trwy unigolion allweddol fel David Lloyd George, ac yna Aneurin Bevan a Jim Griffiths, ond trwy'r dylanwadau radicalaidd ac Anghydffurfiol Cymreig a Chymraeg a oedd yn gefndir iddynt.

******

Yn fuan ar ôl dechrau cerdded i lawr Heol y Frenhines, deuwn ar y dde at rif 8. Yn 1944 penderfynodd Plaid Cymru symud ei phrif swyddfa o Gaernarfon i Gaerdydd. Agorwyd swyddfa fechan dros

dro yn 48 Heol Siarl, a Marion Eames (y nofelydd) yn gofalu amdani, ac yna yn niwedd 1946 symudodd Ysgrifennydd Cyffredinol y Blaid, J. E. Jones (1905–70), o Gaernarfon i'r swyddfa newydd barhaol yn 8 Heol y Frenhines; ac yno y byddai swyddfa'r Blaid yng Nghaerdydd am y 30 mlynedd nesaf, nes iddi symud i 51 Heol yr Eglwys Gadeiriol.

Adeg agoriad swyddogol y swyddfa, Ddydd Gŵyl Ddewi 1947, cafwyd cyfarchiad gan J. M. Edwards y Barri ar ffurf dau englyn, yn cynnwys y cwpled, 'O ddyfod hon, daioni / Ddaw i Gaerdydd, greda' i'; ac yn sicr, bu dyfodiad J. E. Jones o ddaioni mawr i'r Gymraeg yn y ddinas, oherwydd o hynny hyd ei farw gweithiai'n frwd i'w hybu yno. Ef oedd un o'r rhai a roddodd gychwyn ar gylchgrawn *Y Gaer*, rhagflaenydd i'r *Dinesydd*, a gyhoeddwyd dan olygyddiaeth Carey Roberts rhwng 1947 ac 1956; roedd hefyd yn un o'r rhai a ymgyrchai dros gael ysgol gynradd Gymraeg yn y ddinas, ysgol a agorodd ei drysau yn 1949; ac ef a awgrymodd sefydlu Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd yn 1951, syniad a ledodd i sawl man arall maes o law. Ar ben hynny fe fu, meddai, am bymtheg mlynedd yn athro ysgol Sul 'ar ddosbarth anghyffredin o ferched, ymron yn ddeugain mewn nifer' yng Nghapel y Crwys.

Un arall a weithiai yn swyddfa'r Blaid yn Heol y Frenhines ac a fu'n gefn i fywyd Cymraeg y ddinas oedd Nans Jones (Annie Mary Jones, 1915–2009). Un o ardal Bangor ydoedd. Bu'n gyflogedig gan Blaid Cymru o 1942 hyd ei hymddeoliad yn 1979. Symudodd i Gaerdydd yn 1947 ac yno y treuliodd weddill ei bywyd. Meddai Vaughan Roderick amdani adeg ei marw: '"Trefnydd adran fenywod Plaid Cymru" oedd teitl swyddogol Nans am ddegawdau ond mewn gwirionedd hi oedd brenhines hen swyddfa'r Blaid yn Queen Street, Caerdydd. Roedd ei swyddfa bersonol hi deirgwaith yn fwy nag un yr ysgrifennydd cyffredinol ac roedd popeth yn rhedeg yn unol â'i threfn hi. Oes oedd pethau yn "ddigon da i J.E." [a ymddeolodd yn 1962] prin bod angen eu newid ar gyfer y wipyrsnapyrs ifanc ddaeth ar ei ôl!'

******

Cerddwn ymlaen nes cyrraedd Heol Tŷ'r Brodyr ('The Friary') ar y chwith a'r fynedfa i Arcêd y Frenhines ar y dde. Ger y fan hon y safai Porth y Dwyrain gynt – Porth Crocerton. O gerdded i lawr Arcêd y Frenhines ac yna ymlaen trwy Ganolfan Dewi Sant i gyfeiriad Canolfan Dewi Sant 2, byddwch yn dilyn yn fras lwybr waliau dwyreiniol yr hen dref gaerog. (Dilynai Camlas Morgannwg lwybr tebyg wrth iddi lifo o'r Castell, heibio i Heol Tŷ'r Brodyr ac o dan Heol y Frenhines, i gyfeiriad Lôn y Felin.)

Ond awn ymlaen ar hyd Heol y Frenhines, ac wrth adael safle hen Borth y Dwyrain, fe'n cawn ein hunain yn yr ardal a ddatblygodd o'r tu dwyrain i'r dref gaerog ac a elwid 'Y Crocerton' gan siaradwyr y Gymraeg – o'r enw Saesneg 'Crockerton' (sef ardal ar gyfer prynu 'crockery') neu 'Crockherbtown' (sef ardal lle y gellid cael llysiau ar gyfer y 'crock', h.y. ar gyfer coginio). Er mwyn anrhydeddu'r Frenhines Victoria ar drothwy jiwbilî aur ei theyrnasiad, cytunodd Cyngor Caerdydd yn Rhagfyr 1886 i estyn yr enw 'Queen Street' i gynnwys y ffordd a redai o Borth y Dwyrain trwy'r Crocerton hyd at bont y rheilffordd – ond nid heb brotest! Fel y dywedodd un sylwebydd: 'Every fourth-rate market town has its "Queen Street"; but "Crockherbtown" is ancient, distinctive and historically interesting.' Mae'r enw i'w weld o hyd yn 'Crockherbtown Lane', sydd rhwng Heol y Frenhines a Heol y Brodyr Llwydion.


******

Ymlaen â ni nes cyrraedd ar y dde yr agoriad i mewn i (Great) Frederick Street – neu'r hyn sy'n weddill ohoni wedi codi Canolfan Siopa Dewi Sant yn niwedd yr 1970au a dechrau'r 1980au. Agorwyd capel Saesneg gan y Methodistiaid Calfinaidd Cymreig (neu Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a defnyddio enw arall yr enwad) yn Frederick Street ym mis Mai 1868. Adeilad mewn arddull gothig ydoedd, yn dal tua 700, ac fe gostiodd tua £3,000 i'w godi. Y gweinidog rhwng 1874 ac 1886 oedd Dr J. Cynddylan Jones (1841–1930), brodor o Gapel Dewi, ger Aberystwyth. Cyn dod i Gaerdydd bu'n weinidog mewn eglwys Gynulleidfaol yn Llundain, lle y byddai'r beirdd Robert Browning ac Alfred Tennyson yn dod weithiau i wrando arno.

Un i dynnu helyntion am ei ben oedd Cynddylan! Aeth i ddyfroedd dyfnion ym myd busnes trwy ei berthynas ag 'Evan Thomas, Radcliffe & Co.', un o gwmnïau llongau mwyaf ffyniannus Caerdydd yn anterth y fasnach lo. Roedd Henry Radcliffe yn aelod yn eglwys Cynddylan yn Frederick Street, ac Evan Thomas yn aelod yn un arall o eglwysi'r enwad, yn Clifton Street, Y Rhath. (Brodor o Aber-porth oedd Evan Thomas. Enwyd llong gyntaf y cwmni, yr S.S. *Gwenllian Thomas*, ar ôl ei ferch; S.S. *Iolo Morganwg* oedd enw'r ail long, a brynwyd yn 1883. Brodor o Ddowlais oedd Henry Radcliffe, a ddisgrifiwyd mewn englyn gan Thomas Lovell – aelod amlwg o Gymrodorion Caerdydd ac o eglwys Ebeneser – fel 'Cymro diwyro […] o eirias sêl dros ei iaith a'i barddas'.) Yn yr 1880au aeth Cynddylan ati'n frwdfrydig, yn y wasg ac ar ei deithiau pregethu lluosog, i annog pobl i brynu cyfranddaliadau yn y cwmni, ac fe dderbyniai ganran o'r elw o'r gwerthiant. Roedd cysylltiad mor agos rhyngddo a'r cwmni ar un adeg fel y'i llysenwyd gan rai yn 'gaplan y llynges'; ond trodd y berthynas yn ddigon chwerw yn y diwedd, ysywaeth.


Bu Cynddylan yn rhan o sawl anghydfod yn y byd crefyddol hefyd. Cafodd ei feirniadu'n llym gan Anghydffurfwyr pybyr am gyflwyno rhannau o litwrgi'r Llyfr Gweddi Gyffredin i'r addoliad yn Frederick Street yn 1880. Ymddiswyddodd o fod yn weinidog yr eglwys ymhen rhai blynyddoedd; ond ni symudodd o'r cylch, gan barhau i fyw yn ei gartref, Minafon, yn yr Eglwys Newydd hyd ei farw. (Mae'r enw 'Minavon' i'w weld o

**S.S. Gwenllian Thomas**



hyd mewn llythrennau bras ar adeilad ar groesffordd Manor Way a Heol Ty'n-y-parc.) Ac yn ei flynyddoedd olaf, bu Cynddylan ar flaen y gad yn erbyn twf rhyddfrydiaeth ddiwinyddol yn enwad y Methodistiaid Calfinaidd.

Dros y blynyddoedd bu galw mawr amdano fel pregethwr gwadd ar hyd a lled y wlad, a rhwng 1887 ac 1909, ef oedd Ysgrifennydd y Feibl Gymdeithas yn ne Cymru. Roedd yn awdur toreithiog a phoblogaidd, yn y



***Cynonfardd yn ei wisg fel Archdderwydd America yn 1913***

Gymraeg a'r Saesneg, ar bynciau diwinyddol a beiblaidd. Cyhoeddodd tua ugain o gyfrolau i gyd. Un o'i weithiau mwyaf dylanwadol oedd ei esboniad Cymraeg ar Efengyl Ioan. Cyhoeddwyd argraffiadau o rai o'i gyfrolau Saesneg yn Toronto ac yn Nashville, Tennessee, a bu dosbarth o ddeuddeg o ddynion yn cyfarfod bob nos Sadwrn am dros ddegawd yn Columbus, Ohio, i astudio *Cysondeb y Ffydd*, y gyfres o bedair cyfrol ddiwinyddol drwchus a gyhoeddodd rhwng 1905 ac 1916.

Argraffwyd cyfrolau *Cysondeb y Ffydd* a rhai o lyfrau Cymraeg eraill Cynddylan gan Gwmni Evans a Williams yn Frederick Street. Argraffodd y cwmni hwnnw nifer o eitemau Cymraeg eraill hefyd yn negawdau cyntaf yr ugeinfed ganrif, gan gynnwys *Gwaith Barddonol Dyfed* mewn dwy gyfrol (1903, 1907) – fe drigai Evan Rees ('Dyfed'), a fu'n Archdderwydd Cymru rhwng 1906 ac 1922, yn 6 Llandough Street, Cathays – a *Plant yr Haul: Stori Incas Peru* (1915) gan Eluned Morgan, Y Wladfa – ond Gabalfa ar y pryd!

******

Awn ymlaen ar hyd Heol y Frenhines nes dod i'r troad ar y dde i mewn i Ganolfan Dewi Sant. Cerddwn wedyn drwy'r Ganolfan nes cyrraedd y gyffordd rhwng Marks & Spencer a Debenhams. Yno ceir plac sy'n darllen, 'O gwmpas y fan hon y safai Ebeneser, Capel yr Annibynwyr Cymraeg, 1828–1978', adeilad a ddymchwelwyd adeg codi Canolfan Siopa Dewi Sant. Mewn gwirionedd, roedd yr eglwys yn bod cyn 1828. Fe'i corfforwyd ym mis Mawrth 1826, a bu'r aelodau'n cyfarfod mewn hen gerbyty (*coach-house*) digon diolwg rhwng Heol Eglwys Fair a'r afon, yng nghyffiniau Plas y Neuadd (*Guildhall Place*), nes codi capel Ebeneser yn 1828 mewn man a oedd ar y pryd 'i maes o'r dre, ac heb dŷ yn agos'.

Afraid dweud i weinidogion ac aelodau Ebeneser gyfrannu'n fawr dros y blynyddoedd i fywyd Cymraeg Caerdydd ac i gylchoedd ehangach yn y ddinas a'r tu hwnt, ac mae'r cyfraniad hwnnw'n parhau, wrth gwrs, oherwydd er dymchwel yr hen gapel, mae eglwys Ebeneser yn bod o hyd, ond yn cyfarfod bellach mewn man arall. Amhosibl, o fewn ein gofod, fydd gwneud mwy na braidd gyffwrdd â hanes yr eglwys a chyfraniad ei haelodau, ond mae'n dda dweud fod cyfrol ar gael, a gyhoeddwyd adeg canmlwyddiant yr achos, sy'n olrhain yr hanes rhwng 1826 ac 1926. Yr awdur oedd yr athronydd a'r pregethwr grymus, Dr H. M. Hughes (1858–1933), a fu'n weinidog Ebeneser yn hwy na neb arall hyd yma – bron i 40 mlynedd, o 1894 hyd ei farwolaeth. Ei ragflaenydd, gyda llaw, sef T. Cynonfardd Edwards (1848–1927), oedd y gweinidog byrraf ei arhosiad yn Ebeneser. Bu yno rhwng Gorffennaf 1891 a Chwefror 1893 – seibiant byr ynghanol ei weinidogaeth hir yn America, oherwydd er iddo gael ei fagu ym Morgannwg, treuliodd Cynonfardd y blynyddoedd o 1870 ymlaen yn yr Unol Daleithiau, ac eithrio'r cyfnod byr hwnnw yng Nghaerdydd; ac arwydd o'i safle ymhlith Cymry America yw iddo gael ei urddo'n Archdderwydd Gorsedd America gan Dyfed, Archdderwydd Cymru, yn 1913.

Yn 1976, cyhoeddwyd cyfrol arall am Ebeneser, y tro hwn yn olrhain yr hanes hyd at y flwyddyn honno. Dau o aelodau blaenllaw yr eglwys a fu'n gyfrifol am y gyfrol. Un ohonynt oedd yr ysgolhaig manwl a'r llyfrbryf hynaws, Aneirin Lewis (1924–89), a fu'n ddarlithydd yn y Gymraeg yng Ngholeg y Brifysgol yng Nghaerdydd. Y llall oedd y dyn a alwodd Bobi Jones 'yn un o athrawon Cymraeg mwyaf dylanwadol Cymru', sef W. C. Elvet Thomas (1905–94). Mae'r rhestr o fechgyn Ysgol Uwchradd Cathays a syrthiodd, o dan ei ddylanwad ef, mewn cariad â Chymru a'r Gymraeg ac a groesodd y bont i fod yn siaradwyr rhugl, yn un faith a nodedig, ac yn cynnwys yr addfwyn Alwyn Prosser, yr athro ysgol a oedd yn awdurdod ar ryddiaith Williams Pantycelyn ac a fu farw'n rhy ifanc o lawer; Emrys Roberts, a olynodd J. E. Jones yn Ysgrifennydd Cyffredinol Plaid Cymru ac a fu'n arweinydd Cyngor Merthyr Tudful rhwng 1976 ac 1979, pan oedd Plaid Cymru yn rheoli'r cyngor hwnnw; ynghyd â thri darlithydd prifysgol yn y Gymraeg – Bobi Jones ei hun, E. G. (Tedi) Millward, a'r bardd hydeiml, Gilbert Ruddock (1938–98), a fu yntau'n ddarlithydd yn y Gymraeg yng Ngholeg y Brifysgol yng Nghaerdydd ac yn aelod yn eglwys Ebeneser.

******

Gellid dweud llawer rhagor am eglwys Ebeneser, ond am y tro terfynwn ein taith ger y plac yng Nghanolfan Dewi Sant sy'n dynodi safle'r hen gapel. Agorodd pennod newydd yn hanes yr eglwys pan symudodd yn 1977 i adeilad cyfagos yn Heol Siarl, ac os byw ac iach, dyna lle yr awn ar ddechrau ein taith nesaf.

Ffrwyth comisiwn gan Gymrodorion Caerdydd, cymdeithas Gymraeg hynaf y ddinas, yw'r gyfres hon o deithiau. Diolchaf i Dr Dylan Foster Evans am ddarllen drafft o'r testun. Mae'r teithiau blaenorol ar gael ar wefan *Y Dinesydd*.

# CERDYN POST O LUNDAIN

## Lowri Haf Cooke yn holi Sioned Wiliam

*Mae Sioned Wiliam yn Gomisynydd Comedi BBC Radio 4, ac yn awdures tair nofel Gymraeg. Mae hi'n byw yn Llundain gyda'i gŵr Ian a Macsen eu mab.*



**Un o ble ydych chi'n wreiddiol?**
Fe'm ganed yng Nghaerfyrddin ond fe'm magwyd yn y Barri. Lle hyfryd i fod yn blentyn – y môr a'r traeth a chaeau braf Porthceri oedd fy meysydd chwarae. Ro'n i'n rhan o gymuned glòs oedd yn siarad Cymraeg, yn cylchdroi o gwmpas Ysgol Sant Ffransis a Chapel y Tabernacl.

**Pryd a sut lanioch chi yn Llundain, a beth ydych chi'n ei wneud yno?**
Bûm yn Llundain ers i mi ymuno ag adran Adloniant Ysgafn y BBC ym 1988. Cefais yrfa fel cynhyrchydd teledu a radio, yn bennaf ym myd comedi, cyn i mi ailymuno â'r BBC bedair blynedd yn ôl fel Comisiynydd Comedi Radio 4.

**Disgrifiwch eich diwrnod delfrydol yn Llundain...**
Brecwast yng nghaffi Awstriaidd Fischers ym Marylebone – fy newis i fyddai rosti tatws melys ac ŵy wedi ffrio! Cerdded o fanna lawr i Bar Italia ar Frith Street, Soho, i gael paned o goffi gorau Llundain. Yna crwydro ar hyd y Tafwys i gael Shwarma ym marchnad Borough. Prynhawn yn crwydro Brick Lane a Spitalfields, neu fynd am dro ar hyd Waun Hampstead, cyn mwynhau te prynhawn yn Fortnum & Mason. Gweld sioe yn y theatr, ac yna swper hwyr ym mwyty Ffrengig Brasserie Zédel yn Piccadilly. Diwrnod delfrydol, ond heb gyflawni hyn erioed!

**Pa 3 lle yno y byddech chi'n annog rhywun o Gaerdydd a'r Fro i'w profi er mwyn cael blas go dda o'r ddinas?**
Cerdded ar hyd Afon Tafwys o Waterloo i Bermondsey. Crwydro Brick Lane ar fore Sul cyn cael cyri i ginio! Ymweld â Bryn y Briallu – cael pip sydyn ar y gofeb i Iolo Morganwg, cyn mynd draw i fwyty Odette's i flasu bwyd godidog Bryn Williams. Fy 3 lle ym Mro Morgannwg yw Traeth y Cerigos yn y Barri, Gerddi Dyffryn a'r llwybr grisiau aur lawr i Barc Porthceri.

**Beth yw'r pryd bwyd gorau gawsoch chi yn Llundain?**
Pryd o fwyd Indiaidd ym mwyty Anjaana's yn Kilburn – bwyd o Dde India, Dosai, a bwyd llysieuol anhygoel. (Fy nghyngor yn y Barri yw eog a thomatos ym Mr Villa's yn Y Cnap).

**Ble mae'r olygfa orau yno?**
Yn Llundain – ar ben yr estyniad newydd i'r Tate Modern. Syfrdanol.
Yn ardal y Barri – o lwybr Marine Drive uwchben Y Cnap. Fe allwch chi weld arfordir Lloegr, Tŵr Glastonbury, Minehead, y Quantocks ac Exmoor, yn ogystal ag ynysoedd Echni a Ronech ac Aber yr Hafren.

**Beth ydych chi'n ei golli fwyaf am y Barri a Bro Morgannwg?**
Y môr!

***Cicio'r Bar*** **gan Sioned Wiliam (Y Lolfa), £8.99**

## Cyfarfod Blynyddol 2019

Oes gyda chi hanner awr i'w sbario i roi hwb i'r Dinesydd?

Byddem wrth ein bodd o gael eich cwmni am 7.30 yng Nghapel Bethel, Rhiwbeina, nos Fawrth, 18 Mehefin.

Dyma gyfle gwych i gefnogwyr ein papur bro fynegi barn a'n helpu i ddatblygu'r papur ar gyfer y dyfodol.

Croeso cynnes i bawb.
Bryan James, Cadeirydd

## Diolch yn fawr

Diolch yn fawr i gangen Bro Radur o Ferched y Wawr am ei rhodd hael tuag at Y Dinesydd.




# NEWYDDION O'R EGLWYSI

## EGLWYS Y CRWYS

Mewn gwasanaeth hyfryd o dan ofal y Parch. Aled Huw Thomas, bedyddiwyd Clark Gethin George, bachgen bach Stuart a Carys White, brawd mawr Cara, ac ŵyr Gareth a Gwen Edwards. Pob dymuniad da i'r teulu.

Gyda'r tristwch mwyaf y daeth y newyddion o Gaerfyrddin am farwolaeth Mrs Ros Williams. Bu Ros yn aelod ac yn flaenor triw yn y Crwys am flynyddoedd lawer a chofir am ei gwaith enfawr fel athrawes yr Ysgol Sul a'r Cylch Cymorth yn arbennig. Roedd Ros yn meddwl y byd o ieuenctid a hwythau gyda'r parch mwyaf ati hi. Bydd llawer o ieuenctid y Crwys, ac oddi allan i'r eglwys, yn ddyledus iddi trwy ei gweithgarwch ynghyd â'r diweddar Garwyn Davies, gydag 'Operation Friendship', am y cyfle i gyfnewid cyfeillgarwch â theuluoedd mewn gwahanol wledydd, yn arbennig yr Unol Daleithiau. Coffa da am Ros a diolch am y fraint o gael ei hadnabod. Cydymdeimlwn yn ddiffuant â Geraint ac Aled yn eu profedigaeth o golli mam arbennig.

Cafodd 'Prynhawn Da' brynhawn bendithiol yng nghwmni Mrs Elenid Jones yn 'Paratoi at y Pasg' ac yna yng nghwmni'r Parch. Dr R Alun Evans a'n harweiniodd i'r lleoliadau hynny yng Nghaerdydd sy'n arwyddocaol o 'Heddwch yn y Ddinas'.

Ar Ddydd Gwener y Groglith, cafwyd y fraint o groesawu Côr Synod Mizoram i gyfrannu yn yr Oedfa Gymun a arweiniwyd gan y Parch. Robert Owen Griffiths. Diolch i bawb a gymerodd ran yn yr oedfa arbennig yma.

Arweiniwyd Oedfa Gymun bore Sul y Pasg gan y Parch. Aled Huw Thomas, ac roedd yr oedfa hwyrol o dan ofal y Gymdeithas Ddrama. Diolch i'r aelodau am wasanaeth cofiadwy ac yn arbennig i Mr Bob Roberts am baratoi'r deunydd.

Wedi blynyddoedd lawer mewn gwahanol swyddogaethau ariannol o fewn yr Eglwys, mae Mr Emyr Jenkins wedi ymddeol fel Trysorydd. Mae dyled Eglwys y Crwys yn fawr iddo am ei waith trylwyr a'i gyfraniad helaeth. Dymunir yn dda i'w olynydd, Mr Thomas Williams.

Mae croeso i bawb ymuno yn y Brecwast Cyfandirol a gynhelir fore Sul, Mai 12fed, rhwng 9.30 a 10.30 o'r gloch, er budd Cymorth Cristnogol. Tocynnau yn £5 i oedolion a £2 i blant.

Bydd Côr CF1 yn cynnal Cyngerdd yn Eglwys y Crwys nos Lun, Mai 13eg, am 7.30 o'r gloch. Tocynnau yn £5. Croeso cynnes i bawb.

## TABERNACL, YR AIS

**Cydymdeimlo**

Bu farw un o gyfeillion selog yr eglwys yn ystod mis Mawrth sef Gwyn Watkins. Roedd yn frodor o Drelewis ac yn byw yn ardal y Ddraenen, Caerdydd ers blynyddoedd lawer. Cydymdeimlwn gyda'i deulu yn eu hiraeth amdano.

**Cyrddau Pregethu**

Diolch i'r Parch. Judith Morris am ddod atom ni eleni eto a rhannu negeseuon diddorol a chyfamserol. Hi yw Ysgrifennydd Cyffredinol ein henwad. Roedd hefyd yn braf cael cwmni nifer o aelodau o eglwysi eraill y ddinas yn yr oedfa hwyrol.

**Chwiorydd**

Roedd mis olaf y gymdeithas yn un prysur dros ben. Cawsom amser da wrth dderbyn gwahoddiad gan Siân Dowling - 'Dowch i De' – ac aethom i ymuno gyda hi yn ei chartref. 'Teithio' oedd pwnc Llinos Metcalf a bu'n rhannu ei phrofiadau diddorol wrth ymweld â Phatagonia. Taith ddifyr hollol wahanol a gawsom yng nghwmni Euros Rhys a'n harweiniodd drwy hanes ei fywyd a'i ddatblygiad cerddorol. Y ddau achlysur olaf oedd Dathlu'r Pasg, gyda Chwiorydd Ebeneser yn rhannu'r gwasanaeth arbennig gyda ni, ac yna ar Ddydd Iau Cablyd cawsom gwmni Denzil John a soniodd am rôl merched ym mywyd yr Iesu.

**Bore Coffi**

Diolch i Wyn a Megan Morris am eu croeso ym mis Mawrth; yna fe gawsom gyfle i fynd i Dongwynlais ganol mis Ebrill i werthfawrogi croeso arferol Jean Evans.

**Gwasanaeth nos Sul y Pasg**

Cynhaliwyd gwasanaeth arbennig i ddathlu'r Pasg ar nos Sul y Pasg. Mwynhawyd oedfa o fyfyrdodau ac emynau'r Pasg dan ofal aelodau a chyfeillion yr Eglwys.

## BETHEL, RHIWBEINA

Diolch i Mr Gwyndaf Roberts a'r Parch. Aled Edwards am arwain ein gwasanaethau ar Suliau cyntaf Ebrill. Ar Ebrill 14 ein gweinidog, y Parch. Evan Morgan, oedd yn arwain y gwasanaeth a'r cymun. Daeth Evan i wasanaethu yn Salem a Bethel, Rhiwbeina ugain mlynedd yn ôl. Diddorol oedd darganfod faint o'r gynulleidfa fore Sul oedd yn aelodau ym 1999. Diolchodd Evan i'r 'hen' aelodau am eu cwmni a'u ffyddlondeb a chyfeiriodd at gyfeillion annwyl a gollwyd ar hyd y ffordd. Ond roedd yn llawenhau bod cynifer o aelodau newydd wedi ymuno yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Rydym yn falch iawn i'w croesawu.

Yn dilyn y gwasanaeth, bu cyfle dros baned a darn o deisen arbennig i ddiolch i Evan am ei wasanaethau ysbrydoledig ac am ei gymorth amhrisiadwy mewn pob argyfwng. Cyflwynwyd geiriau o ddiolch a rhodd iddo ar ran y capel gan Wyn Jones, a thynnwyd cyfres o luniau gan Julie Jones i gofio'r achlysur.

Aeth nifer o'r aelodau i Salem i ddathlu Sul y Pasg gan nad oedd gwasanaeth ym Methel. Bu cyfle ar ddechrau'r gwasanaeth i fwynhau perfformiad gwych gan gôr ieuenctid o India.



***Mr Wyn Jones a'r Parch. Evan Morgan***

Ar Fai 14 cynhelir Bore Coffi yn y capel am 10.30 i godi arian i'r elusennau Headway a Marie Curie.

Cydymdeimlwn yn ddwys â Carol O'Donnell a gollodd ei mam yn ystod y mis diwethaf.

## BETHEL, PENARTH

Cafwyd achlysur arbennig wrth gynnal oedfa fedydd Elin Mair, plentyn Nia ac Alex, wyres John a Jane, yn y prynhawn ar Ebrill 7fed. Bu'r fechan yn hollol gysurus drwy'r cyfan ac felly ddim yn rhoi sialens o unrhyw fath i'n gweinidog, a gyfoethogodd brofiad pawb wrth ddefnyddio cyfarpar clywedol yn ddychmygus iawn. Bu symudiadau brawd Elin dan reolaeth gariadus llygaid ei ddwy fam-gu.

Yn oedfa'r bore, Ebrill 7fed, cawsom y pleser o groesawu'r Parchedig Ifan Roberts. Yn dilyn darlleniad o Matthew 16, cafwyd myfyrdod ar y cwestiwn: Pwy meddwch chwi ydwyf fi? Gan dynnu ar Rhufeiniaid 3, cyfeiriwyd at dair gweithred – prynu, cyfiawnhau, cymodi. Buom yn canu'r emynau 769, 691, 499, 341.

Cawsom arweiniad cofiadwy gan ein gweinidog Y Parchedig Kevin Davies mewn pedair oedfa ar draws Yr Wythnos Fawr o Sul y Blodau i Sul y Pasg. Ym mhob un atgyfnerthwyd y neges gan arddangosiadau trawiadol; yn ddi-os hyn yw nodwedd cyflwyniadau Kevin.Gwerthfawrogwn yn fawr.

Yn arbennig o effeithiol yn oedfa'r Groglith (yn festri llawr-caled Tabernacl, Y Barri) oedd y cyflwyniad o Iesu'n dymchwel byrddau'r deml – 'ond yr ydych chwi yn ei wneud yn ogof lladron'.



Yn oedfa Sul y Pasg, pwyswyd arnom i ystyried arbenigrwydd Iesu mewn cymhariaeth ag arweinwyr crefyddau eraill, ac felly i fod yn fwy blaengar yn ein teyrngarwch Iddo.

Hyfryd iawn oedd croesawu'r Parchedig Haydn Thomas atom ar Ebrill 28ain. Maes y myfyrdod oedd geiriau yn Datguddiad 3, 22 – 'Yr hwn sy ganddo glustiau gwrandawed…'. Rhoddwyd sylw, er mwyn cymharu gyda'n sefyllfa ni, i gyflwr eglwysi Sardis a Laodicea. Hoeliwyd ein hymateb yn yr emynau 181, 201, 579, 811.

## EBENESER

**Llan Llanast**

Ar fore Sul 7fed o Ebrill, cynhaliwyd cyfarfod misol arbennig i blant unwaith eto gydag awr o weithgareddau, stori a chrefft. Daeth criw da i ddysgu a mwynhau dathlu dechrau cyfnod y Pasg. Ewch i'n gwefan: www.ebeneser.cymru i weld dyddiad y Llan Llanast nesaf.



**Sul y Pasg**

Dathlwyd buddugoliaeth yr Atgyfodiad ar fore Sul 21ain o Ebrill gydag Alun Tudur yn pregethu ar ymateb i'r atgyfodiad bryd hynny ac o fewn ein cymdeithas heddiw. Cafodd y plant wyau Pasg yn dilyn stori i'w hatgoffa am fywyd newydd. Gyda'r nos fe'n hatgoffwyd o gynllun arbennig Duw ar ein cyfer, ym marwolaeth ac atgyfodiad y Meseia. Ewch i wefan SoundCloud.com a chwilio am Ebeneser Caerdydd am ein holl bregethau.

**Llanw**

Aeth criw da o'r eglwys i ŵyl Gristnogol Llanw yn ystod wythnos 22ain i'r 25ain o Ebrill. Ein gweinidog, Alun Tudur oedd prif siaradwr cyfarfodydd y bore a chawsom dair pregeth rymus ar Pedr, a drodd o fod yn un a ellid ei ddisgrifio fel cwpan mewn dŵr, yn tin -droi yn ei le, i fod yn 'graig' y ffydd Gristnogol. Roedd yna seminarau a gweithgareddau i'r teulu cyfan. Braf oedd gallu dathlu ac addoli wedyn yng nghyfarfodydd y nos. Siaradwyr y nos oedd Nia Williams, Parch. John Derek Rees a Rosa Hunt. Roedd y neuadd yn orlawn bob dydd gyda thua 300 ym mhob cyfarfod, heb sôn am blant a phobl ifanc. Edrychwn nawr ymlaen i'r flwyddyn nesaf. Ewch i www.llanw.org i ddysgu mwy am yr ŵyl, ac efallai ystyried dod y flwyddyn nesaf.

## EGLWYS DEWI SANT

**Sul y Dioddefaint**

Ar derfyn y gwasanaeth fore Sul Ebrill y 7fed, cynhaliwyd Festri'r Pasg sef Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yr Eglwys pan gyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol ac ethol y Cyngor Plwyfol Eglwysig sy'n llywio bywyd yr eglwys. Penodwyd Wyn Mears yn Warden y Ficer ac etholwyd Gwynn Matthews yn Warden y Bobl, y ddau am yr eildro.

**Y Cymun canol wythnos am 10:30**

Wedi'r gwasanaeth bore Mercher arferol ar Ebrill y 10fed, cafwyd yr olaf o'r Grwpiau Trafod a fu, tros y Garawys, yn rhoi sylw i Addoliad yn yr Eglwys Fore, yn Eglwys y Canol Oesoedd ac yn yr Eglwys Gyfoes, ymysg cyfnodau eraill.

**Sul Y Blodau**

Ar ôl i'r Ficer fendithio'r Croesau Palmwydd ar ddechrau'r gwasanaeth, gorymdeithiodd pawb o gylch yr eglwys cyn dychwelyd i'r adeilad am weddill y gwasanaeth.

**Yr Wythnos Fawr**

Sul y Blodau yw dechrau'r Wythnos Fawr, pan gynhelir gwasanaethau bob un dydd i nodi taith ein Harglwydd at Galfaria a'r Atgyfodiad.

**Sul Y Pasg**

Ar gyfer gŵyl fwyaf yr Eglwys Gristnogol, gwisgwyd yr eglwys yn hardd â blodau gan Gylch Dewi a goleuwyd y Gannwyll Basg. Canodd y Côr drefniant o Anthem y Pasg gan Ieuan Jones, ein Horganydd a Chyfarwyddwr Cerdd. Roedd cyfraniad y Côr ac Ieuan fel ei gilydd yn werthfawr unwaith eto.

**Y Clwb Cerdded**

Y Sadwrn cyn y Pasg, aeth y grŵp cerdded i Goed y Wenallt i weld Clychau'r Gog yn eu gogoniant.

**Coffi a Chlonc**

Oherwydd Yr Wythnos Fawr, ni fu cyfarfod fis Ebrill. Bydd Bore Coffi'r Dysgwyr y tro nesa ar 18 Mai am 10:30 yn Neuadd yr Eglwys. Croeso cynnes.

**Datganiadau ar Organ yr Eglwys**

Bydd y Dr. Peter King yn agor y tymor ddydd Gwener Mai 3 am 1:30.


**Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd**

**Cinio Cymorth Cristnogol**

Cynhelir cinio ysgafn yn festri'r Crwys, Heol Richmond, dydd Iau, 16 Mai, 12.15-1.30. Gwahoddir eglwysi i ddod â brechdanau, pice ar y maen a ffrwythau. Codir tâl £5.

Bydd John Rowlands, cadeirydd newydd Cymorth Cristnogol yng Nghymru yn dwyn cyfarchion ar ran Cymorth Cristnogol.

**Bydd croeso cynnes i bawb.**

## MINNY STREET

www.minny street.org @MinnyStreet

Gweinidog: Y Parchedig Owain Llyr Evans

**Croeso**

Braint a hyfrydwch oedd derbyn un o ieuenctid yr Eglwys, Shani Llyr Evans i gyflawn aelodaeth yn yr Oedfa Gymun fore Sul, 7 Ebrill. Hyfrydwch hefyd, yn yr un oedfa, oedd cael derbyn yn aelodau ddau sydd eisoes yn ffyddlon i'n hoedfaon a chyfarfodydd yr wythnos, sef Eldrydd a Fred Williams (Llanisien). Croeso cynnes iawn i'r tri i deulu Eglwys Minny Street.

Croeso cynnes hefyd i Lois Morfydd, merch i Ifan a Llinos Patchell a chwaer fach i Gruffydd, ac i Cadi Gwen, merch i Geraint a Steph Williams. Rydym yn llongyfarch ac yn dymuno pob bendith i'r ddau deulu.

Mae croeso i bawb – 'o'r ieuengaf i'r hynaf' – i'n hoedfaon ar y Sul (10.30 a 18.00). Y Gweinidog fydd yn arwain ein hoedfaon ar dri Sul cyntaf y mis (ond ni fydd oedfa hwyrol ym Minny Street nos Sul, 12 Mai gan y byddwn yn ymuno yng ngŵyl bregethu Eglwys y Crwys am 18.00). Bydd Cymundeb 5 Mai yn yr hwyr. Cawn y pleser o groesawu y Parchedig Dyfrig Rees (Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr) i arwain yr addoliad ar 26 Mai. Bydd Ysgol Sul ar 5, 19 a 26 Mai ac Oedfa Foreol Gynnar (9.30) ar 12 Mai. Yn methu dod i'r oedfaon? Ymunwch â ni drwy gyfrwng negeseuon trydar @MinnyStreet #AddolwnEf (ar Suliau'r Gweinidog). Yn dechrau toc wedi 10:30/18:00.

Bydd bwrlwm gweithgarwch yr wythnos, sef Babimini (ddydd Gwener, 3 a 17 Mai am 9.45), Bethania (nos Fawrth, 14 Mai am 19.30), Llynyddwch (ddydd Gwener, 24 Mai am 10.00 yng nghaffi Terra Nova, Parc y Rhath), a PIMS (nos Lun, 6 a 20 Mai am 19.00), yn parhau. Bydd Koinonia Pnawn ddydd Mercher, 15 Mai am 12.00 a Koinonia nos Sul, 19 Mai am 19.30 – cofiwch archebu ymlaen llaw.

**Heddwch yn y Ddinas**

Dydd Sadwrn, 18 Mai, yng nghwmni Jon Gower, bydd cyfle i fynd ar daith gerdded hamddenol 2.5 awr o hyd (yn cynnwys cyfle am baned a seibiant byr) drwy Gaerdydd. Bydd y daith yn cychwyn o'r Deml Heddwch, Parc Cathays am 11.00 y bore. Diolch i Gyfundeb Dwyrain Morgannwg am drefnu'r digwyddiad.

## SALEM, TREGANNA

**Evan yn dathlu 20 mlynedd yn Salem**

Cawsom wasanaeth arbennig ar 7 Ebrill wrth i ni ddathlu bod Evan wedi bod yn weinidog arnom yn Salem ers 20 mlynedd. Anodd credu! Rydym am ddiolch yn ddidwyll iddo am bopeth dros y ddau ddegawd diwethaf wrth iddo fod yn weinidog, yn ffrind, yn gysur ac yn llawer o hwyl dros y blynyddoedd, gyda ni'r oedolion a hefyd gyda phlant a phobl ifanc y capel. Mae ein cymdeithas gyfeillgar, agored, gynhwysol a chroesawgar yn dyst i'w weledigaeth a'i arweiniad o weithredu'n ymarferol ar ein credoau. Gobeithiwn y bydd am aros gyda ni i'r dyfodol agos a phell! Diolch yn fawr iawn, Evan, ar ran pawb yn Salem a'r gymuned ehangach. Cawsom fwynhau teisen arbennig wedi'r oedfa. Hyfryd oedd clywed y grŵp canu dan arweiniad Geraint Cynan yn perfformio yn yr oedfa.

**Adran yr Urdd, Salem**

Llongyfarchiadau mawr i'r adran ar ei llwyddiant yn yr Eisteddfod sir. Edrychwn ymlaen yn fawr at eich cefnogi yn y Bae ddiwedd y mis!

**Ymweliad Côr Synod Mizoram**

Hyfryd oedd croesawu Côr Synod Mizoram o India fore Sul y Pasg. Cafwyd rhaglen hyfryd ganddynt ac anerchiad, a hynny ar ôl iddynt deithio i sawl rhan o Gymru i berfformio a chymryd rhan mewn cystadleuaeth gorawl yng Nghanolfan y Mileniwm.

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn yn fawr â Gwyneth Harbourne sydd wedi colli ei chwaer. Rydym i gyd yn meddwl amdanoch yn eich colled fawr.



*Côr Synod Mizoram gyda'r Parch. Evan Morgan yn Salem Treganna*

---

**Gŵyl Fach y Fro** DIGWYDDIAD AM DDIM! FREE EVENT!

**15.06.19 11AM - 7PM**
**Ynys y Barri**

**Cerddoriaeth gan:**

Meic Stevens a'r Band
Chroma
The Gentle Good
Bwncath
Bronwen Lewis
Canfas
Dagrau Tân
Sioe S4C Cyw

**Eitemau gan:**

Corau Ysgolion y Sir
Cylchoedd Meithrin
Aelwyd Coed y Cwm
ABC Y Fro

MENTER IAITH BRO MORGANNWG

# Dyddiadur Deurodiwr Dŵad

Beiciwr bach diniwad yn dŵad nôl o dro i dro, i droedio, neu a deud y gwir, i ddeurodio hen lwybra a gweld be di be yn rhen Ga'rdydd ma.

**"Yn y Fro, - dewch am dro"**

"Alli di 'sgrifennu rwbeth am y fro erbyn y rhifyn nesaf?" medda Bòs y Dinesydd wrtha i.

"Pa fro?" me' fi. "Y Fro Gymraeg, ynta'r fro-rhwng-môr-a-mynydd-heb-arni-staen-na-chraith?"
"Jiw, na, Y Fro," me' fo gydag andos o y-fawr yn ei lais. "Ry'n ni'n trio cynnwys mwy am Y Fro ym mhob rhifyn, i'w cadw nhw'r ochr draw 'co yn swît. Ma shwd gymint o gyfoeth yna; - a ni moyn yr arian i gal rhifyn lliw o'r papur bob tro."
"Ia, ond pa Y Fro di honno?"
"Wel, Y Fro, Bro Morgannwg, *Vale of Glamorgan*, siŵr iawn!"
A gan bod y Bòs a fi'n fêts bellach, "Iawn, bro," me' fi - â mhen i'n llawn o hen gân Edward H.

Dwi'm yn licio beicio'n rhy bell, rhag i mi ddiodda chwanag o glwy'r marchogion, a roedd **Y** Fro 'ma'n swnio'n go bell - a chrand, ar wahân i'r Barri sydd ar ei gwaelod hi'n rhwla. Fues i sawl tro, stalwm, i Fari-eiland - mynd ar y trên gyda'r miloedd ymwelwyr eraill. Mwynhau'r traeth a Scenic Railway'r ffair, (neu Gehena, ys dywed Nain). Ond roedd hynny cyn i Fili Bytlin lygru ffynnon Baruc Sant, cyn i'r Barri golli ei dociau, a chyn i'r dref gael ei Gafin-a-Stêsïo. Be ddywed Sant Peirio am ei ynys heddiw, tybed? Cuddio yn olion ei abaty y mae, ma'n siŵr - sydd rhwla rhwng y Barrybados Giftshop a Gehena!

Yn ôl y sôn, mae nhw'n codi tai newydd a siopau ledled 'rhen ddociau, a thros fynwent-hen-drenau-stêm Woodham's Yard, nes bod *'Davies the Ocean'*, sef David Davies, Llandinam yn gwenu eto ar ben ei blinth yn dal ei fap newydd – nid o'i ddociau gwreiddiol yn y Barri, ond y *'Barry Quays Millennium Development'*. Mi ddiflannith y wên pan glywith bod Waitrose yn cau.

Mi ddalltish wedyn bod **Y** Fro yn dechra 'rochr draw i afon Elái. Am dro i'r *VoG* â vi, velly! Wfft i feicio yno ar drac rasio'r Cogan Spur, felly reidiais dros Bont y Werin. Llwybr i werin Caerdydd groesi at bobl grand **Y** Fro ydi'r bont, medda nhw.

Troi wedyn tuag at hen ddociau Penarth a agorwyd yn 1865. Allforio glo a cherrig a wnaed yma'n bennaf – llwythi wedi'u cludo yno ar gledrau'r Taff Vale Railway, yna'r GWR, cyn tranc y dociau'n yr 1930au. Yna llenwyd hanner y doc gyda sbwriel, 'nialwch hen adeiladau'r Williams Sidings, a'r tomenni o gerrig wast o chwareli ac odynau calch y clogwyn gerllaw. Moethuswyd yr hen ddoc ers canol yr 1980au a'i droi'n *Portway Marina* - yn dai a chychod (a phobl?) crand.

Nelais am *alpe-d'huez* o lwybr a luniwyd ar lethrau un o'r hen chwareli gan fustachu i ddringo'i saith bachdro, heb gerdded, i dopia'r gefnen. Fama ddiwedd yr 1960au y cododd y cyngor lleol stad o 20 bloc o fflatiau ar gyfer dros fil o bobl. Hwn oedd y Billy Banks - "calon ac enaid" Penarth. Blociau llwyd, unffurf, sgwarog: Prince Charles Court, Prince Edward Flats a Highview Road. Ond buan trodd tai braf y 60au yn slymiau blêr y 90au.

Mae golygfeydd o ogoniannau Bae Caerdydd ers codi'r bared yn rhy werthfawr i'w gwastraffu ar ryw wehilion o boblach tai cyngor. A tydi ymwelwyr â'r Bae, na thrigolion rhan-amser ei fflatiau crand, na'r rhai sy'n 'gweithio' yn Nhŷ Hywel a'r Senedd ddim isio gweld 'Alcatraz' hyll ar y gorwel yn difetha'r olygfa. Dymchwelwyd y Billy Banks. Mae Charles wedi bod yn Brins llawer hwy nag y parodd ei fflatiau. Heddiw, yma ar *'Penarth Heights'* mae bron i 400 o dai a fflatiau moethus - ar Harbour View Road, Royal Court a, chwara teg, Trem y Bae a Threm Elái. Am drem!

Troiais am adra, i lawr yr allt at Cwtsh-y-cŵn a draw i ochr ogleddol Marina Penarth at gyffordd Llwyn Passat a Plas Pamir – dwy lôn a enwyd ar ôl dwy hen long hwylio pedwar-mast a fu'n y dociau tua diwedd eu gyrfa. Mae pwt o ardd ar y gornel; sleifiais drwy'r llwyni at y drws cudd, ei agor, a chamu i'r tywyllwch. Talu'r doll o 1 hen geiniog yna beicio i lawr yr allt o fewn twnnel sy'n beipan gron 7 troedfedd o led - mond digon o uchder i feiciwr neu gerddwr. Gwyro i'r dde, cyrraedd y gwaelod llaith yna dringo allt serthach. Tipyn o straffîg oedd dod allan o'r twnnel chwarter milltir o hyd hwn dan afon Elái rôl cyrraedd ochr Caerdydd. Mae'r Cardiff Bay Yacht Club wedi symud y porth – roedd hi'n haws stalwm pan oedd fama'n llawn tanciau storio olew. Ond mae'r iotwyr wedi cadw ac arddangos y cylch haearn oedd ar geg y twnnel – cylch a grëwyd gan gwmni Thomas Gregory, Garth, Ffynnon Taf â'r dyddiad 1899 arno.



*agor yr isffordd i'r Fro yn 1900*

Does fawr neb yn coelio bod y twnnel hwn, a agorwyd ar 14 Mai 1900, yno o hyd – rhaid i chi fod yn un o hogia-go-iawn y ddinas i wybod hynny, ac i'w ddefnyddio. Nid rhyw *'Torchwood'* o lol mo hwn!

Anelais am Ferry Road - y ffordd at waelod y pentir tua'r hen fferi a oedd yno cyn y twnnel. Ond trowyd hwn yn Empire Way â'i dyrau fflatiau moethus *'Cardiff Pointe'*. Be 'di'r pwynt o gwffio dros enwau brodorol pan fo rhyw lolyn o ddatblygwr (neu gynghorydd) yn cael dewis rhai twp? Yna, er mwyn cael sbïo nôl ar 'Y Fro', reidiais i gopa Mount Grangemoor, ger Asda - bryncyn a godwyd dros hen domen sbwriel Ferry Road. Ia, hwnnw â pheipiau'n codi ohono i gasglu'r nwy peryglus ddaw o'r holl wastraff sy'n pydru a madru islaw. Dim ysmygu'n y fangre hon! Roeddwn nôl yng Nghaerdydd – ond yn ôl hen fapiau, darn o Benarth ac 'Y Fro' oedd hwn cyn iddynt sythu ystumiau afon Elái.

***Olwyn ap Gron***

# Cwmni'r Dysgwyr

*"Mae gwirfoddoli fel stiward yn ffordd ardderchog i wella eich Cymraeg."*

## Gair gan Matt Spry
### Dysgwr y Flwyddyn



### Gwyliau yng Nghaerdydd a'r Fro ym mis Mai a mis Mehefin

Shwmae bawb. Gobeithio i chi fwynhau'r tywydd braf dros y Pasg. Y mis yma dw i eisiau achub y cyfle i'ch atgoffa o gwpl o ddigwyddiadau a fydd yn cael eu cynnal yng Nghaerdydd a'r Fro yn fuan - cyfleoedd ardderchog i ddysgwyr ymarfer eu Cymraeg. Bydd Eisteddfod yr Urdd ym Mae Caerdydd 27 Mai – 1 Mehefin. Bydd ardal y dysgwyr yn cael ei lleoli yn adeilad y Pierhead, fel yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd y llynedd, a dw i'n siŵr y bydd amserlen o weithgareddau diddorol a chyffrous er mwyn eich helpu chi ymarfer eich Cymraeg. Am y tro cyntaf erioed bydd mynediad i'r maes am ddim ond bydd rhaid prynu band braich i gael mynediad i ragbrofion a'r Pafiliwn. Ceir mwy o fanylion yma: https://www.urdd.cymru/cy/eisteddfod/eisteddfod-2019/

Y lle i fod ddydd Sadwrn 15 Mehefin yw Ynys y Barri – Gŵyl Fach y Fro. Bydd diwrnod o hwyl ar lan y môr gyda bandiau, bwyd, celfyddydau, chwaraeon, gweithgareddau i blant, gweithgareddau ar gyfer dysgwyr a mwy! Mae Gŵyl Fach y Fro yn rhad ac am ddim i bawb. Ceir mwy o fanylion ar dudalen Facebook Gŵyl Fach y Fro: https://www.facebook.com/events/606984513105469/

Ac i orffen, bydd Tafwyl yng Nghastell Caerdydd 21 - 23 Mehefin. Penwythnos o hwyl yng nghanol y brifddinas gyda cherddoriaeth, bwyd, celfyddydau, chwaraeon, gweithgareddau i blant, gweithgareddau ar gyfer dysgwyr a mwy! Am y tro cyntaf eleni, bydd noson o gerddoriaeth Gymraeg nos Wener 21 Mehefin yn y castell. Mae popeth yn rhad ac am ddim. Ceir mwy o fanylion yma: http://tafwyl.org/

Dych chi erioed wedi meddwl am wirfoddoli fel stiward? Mae pob digwyddiad yn dibynnu ar wirfoddolwyr i stiwardio. Mae'n ffordd ardderchog i wella eich Cymraeg, yn enwedig o ran hyder. Dw i wedi gwirfoddoli ddwywaith yn Tafwyl ac unwaith yn Gŵyl Fach y Fro – profiadau gwych ac roedd gwirfoddoli yn help mawr i fi o ran gwella fy Nghymraeg. Cysylltwch â'r trefnwyr os dych chi eisiau gwirfoddoli! Gobeithio y byddwch chi'n manteisio ar y cyfleoedd ardderchog hyn i brofi diwylliant Cymraeg ac i ymarfer eich Cymraeg. Gwela i chi yno!

## Gwilym Dafydd



**Cau Caffi Zest Jams Hywel**

Fydd yna ddim rhagor o goffi a chlonc ar brynhawniau Gwener yn Caffi Zest rhwng 1 a 2 o'r gloch. Ond peidiwch â phoeni, dyw'r awr hon o glonc ddim wedi dod i ben. Mae digon o le lan llofft ar yr ail lawr yn y Tŷ Bwyta. Felly o ddiwedd mis Ebrill ymlaen dewch i Laeth a Siwgr, yr Hen Lyfrgell ar ddydd Llun, 1-2 a House of Fraser gyferbyn ar brynhawniau Gwener 1-2 o'r gloch. Croeso i bawb o bob safon sydd yn chwilio am gyfle i ymarfer siarad Cymraeg.

**Cofio Taid, DGD**

Bydda i'n cyflwyno sgwrs fach am fy nhad, Parch. Ddr. Dafydd G Davies, 1922-2017, ar nos Fawrth, 21 Mai yn Eglwys y Ddinas, Windsor Place, 7.30. Croeso cynnes i bawb. Bydd pethau diddorol i'w gweld. Calendr o oes Fictoria (?), tebot 1922, tystysgrifau arholiadau ysgolion Sul 1930-36, dyddiadur 1939 pregethwr 17 oed ac mae ambell i gerdyn pen-blwydd lliwgar yn ei nawdegau yn ddigon trawiadol.

**Cwrdd Blynyddol Papurau Bro Cymru**

Eleni, fel llynedd, cafodd Eirian a fi gyfle i gynrychioli'r *Dinesydd* yn y cwrdd blynyddol yn Llety'r Parc Aberystwyth, dydd Iau, 4 Ebrill. Dechreuodd hi fwrw eira wedi Castell Coch ac yna'r holl ffordd hyd ryw 10 milltir cyn cyrraedd Llanbadarn Fawr.

Ceir tua 52 o bapurau bro unigol, ac roedd ychydig yn llai na'r hanner a rhyw 45-50 ohonom yn eistedd o amgylch y byrddau. Mae'n gyfle gwych i glywed am hynt a helynt rhai eraill o bapurau bro Cymru a dod adref â rhyw 15-20 copi o hen rifynnau ac ambell un cyfredol o bob cwr o Gymru, heb anghofio am *Yr Angor*, papur bro Lerpwl a'r cylch.

Bydd cyfle i chi gael golwg ar bapurau bro eraill heblaw'r *Dinesydd* mewn coffi a chlonc yn ystod mis Mai. Mae tudalen i ddysgwyr mewn ambell un.

Rydw i hefyd wedi prynu ambell gopi ar fy nheithiau yn ystod mis Ebrill. Aethon ni mewn i'r Co-op yn Llanbedr Pont Steffan ar y bore Sadwrn wedi'r cwrdd blynyddol. Prynais gopi o *Clonc* am 60 ceiniog yna sylwi bod Delyth Phillips yno yn siopa. Dim ond yn ddiweddarach y sylwais taw Delyth oedd golygydd rhifyn Ebrill!

Rhai dyddiau cyn penwythnos Y Pasg, prynais gopïau o *Papur Menai* a *Goriad* – papur bro Bangor a'r Felinheli - yn siop Awen Menai, Porthaethwy. Roedd colofn Mari Emlyn am 'Hel Caffis' yn ddiddorol a'i hatgofion am brynu hufen iâ Thayers yn Wellfield Rd, Caerdydd. Mae'n debyg bod Cyril Thayers, y perchennog, yn siarad Cymraeg.

Wnes i ddim disgwyl darllen adroddiad byr am Gôr y Penrhyn – Cyngerdd gyda Chôr Meibion Taf ar dudalen 17. Bydd angen i Steffan Jones ddarllen hwn, 'eu harweinydd talentog, yn cymryd rhan yr unawdydd yn arbennig o effeithiol.'

# Gorymdaith Ddathlu 70 mlynedd o Addysg Gymraeg yng Nghaerdydd

**o Neuadd y Ddinas i'r Castell a Tafwyl, 10.00 – 11.00 Mehefin 22**

## Arfbais a Bathodyn

Bellach, mae pob ysgol Gymraeg yng Nghaerdydd â'i bathodyn neu arfbais ei hunan, ac mae'r rhain oll i'w gweld ar y map a baratowyd gan RhAG (*tudalen flaen Dinesydd mis Ebrill)*, a fydd hefyd ar faner Gorymdaith Ddathlu'r 70 ar 22 Mehefin. Ond beth am eu rhagflaenydd, sef Ysgol Gymraeg Caerdydd, a Bryntaf?



*Sian a'i beret*

Bu Sian (Morgan) Thomas yn chwilota yn ei chypyrddau, yn cofio yn y cyfnod 1949-51 fod pob merch â 'gym slip' a beret, ac roedd y bechgyn yn gwisgo 'blazer' ar gyfer digwyddiadau pwysig. Dyma hi, Sian, heddiw, yn gwisgo'i beret gwyrdd gwreiddiol, gyda tharian Ysgol Gymraeg Caerdydd arno, y benwisg bellach yn dangos dipyn o ôl traul a llawer o olchi.



*Ifan ac Alwyn*

Yn y darlun arall, mae Ifan Payne ac Alwyn Evans yn gwisgo eu blazers, gyda bathodyn yr ysgol, wrth dderbyn eu gwobrau gan yr Henadur R. Gruffydd Robinson am ddod yn gyntaf ac yn ail yng nghystadleuaeth traethawd Gŵyl Ddewi y *Western Mail* 1953. Yn y llun hefyd mae'r Cyfarwyddwr Addysg, T O Phillips a'r Cynghorydd Llewellyn Jenkins; bu'r ddau yn hynod gefnogol i addysg Gymraeg gynnar yn y ddinas, yn aml yn wynebu gwrthwynebiad cynghorwyr eraill. Ac wrth gwrs, Mrs Enid Jones Davies, y brifathrawes o 1949 i 1972, a gyfrannodd gymaint i fywydau cenedlaethau ohonom ni, ddinasyddion Caerdydd.

Ond erbyn 1953, roedd yr ysgol wedi trosglwyddo o Ysgol Parc Ninian i Fryntaf, gyda'r symudiad mawr yn digwydd ar Orffennaf 23 1952, yr un diwrnod ag y gadawodd y ddau ddisgybl hynaf, Ethni Daniel ac Elizabeth Williams, i fynd i ysgolion uwchradd. Eto i gyd, bathodyn Ysgol Gymraeg Caerdydd sydd ar y blazers o hyd! Yn ddiweddar, roedd nifer ohonom ymhlith disgyblion cynnar y 50au yn holi'n gilydd, 'Ond beth oedd bathodyn Bryntaf, ac a oedd gan yr ysgol arwyddair?' Doedd neb ohonom yn cofio, ac er chwilio drwy luniau cynnar, doedden ni ddim callach.

Yna ychydig wythnosau yn ôl, daeth rhywfaint o oleuni wrth bori drwy 'Gweplyfr'. Diolch i Kevin Knight a bostiodd lun y plât yno, yn ôl yn 2014! Fel y gwelir, mae'n dathlu blynyddoedd bodolaeth yr ysgol gyntaf, o 1949 hyd 1981. Mae'n cofféu'r achlysur pan ymrannwyd Bryntaf yn dair ysgol, sef Coed-y-Gof, Y Wern, a thraean yn aros yn y Rhodfa (Parade) am ddwy flynedd pellach, cyn symud i ffurfio Ysgol Bro Eirwg. Eisoes, yn 1980, roedd Ysgol Melin Gruffydd wedi ei sefydlu i leddfu'r pwysau ar Bryntaf a oedd, dan arweiniad y prifathro, Mr Tom Evans, yr ysgol gynradd fwyaf yn Ewrop, gyda dros 650 o ddisgyblion. [Mae'r arwyddair yma'n glir, er mai '**Ein** hiaith a gadwant' yn hytrach nag 'Eu hiaith' cân ddarogan Taliesin a ddefnyddir. Dydw i ddim yn siŵr ai tri chleddyf neu dair croes sy'n ffurfio'r **Y** ar gyfer Ysgol [Bryntaf]. Deallaf hefyd mai cynnyrch Crochendy Rhymni (Caerdydd) yw'r arteffact. Ond ai hwn oedd y bathodyn 'swyddogol'? Oedd bathodyn arall? Chi ddisgyblion y 60au a'r 70au, ydych chi'n gallu ateb?




*plât Bryntaf*

A chofiwch hefyd, rydym ni o hyd angen stiwardiaid ar gyfer yr Orymdaith, (cysylltwch ag Iolo ar 079 9089 3117 neu Alwyn ar 079 6864 9434). A'r gweddill ohonoch, dowch ar Fehefin 22 i gerdded gyda'ch hen ysgol, neu ysgol eich plant, i ddathlu llwyddiant Ysgolion Cymraeg ein dinas!

Alwyn Evans

## Amser Jôc gyda Huw James



Aeth Dai i swyddfeydd y *Cambrian News*. "Faint yw cost rhoi hysbyseb marwolaeth yn y papur?" gofynnodd. "Punt pob gair," atebodd boi'r papur. OK. "Bu farw Twm Ifans."

"Bydd hynny yn wyth punt."

"Ond dwedaist ti punt pob gair."

"Wyth punt ydy'r minimwm."

Meddyliodd Dai am sbel. "Iawn," dwedodd e. "Bu farw Twm Ifans. Morris Minor ar werth."

# Casgliad newydd Draenog

Mae cwmni dylunio Draenog o Gaerdydd wedi cydweithio gyda rhai o hoff gantorion Cymru i greu casgliad newydd o gardiau cyfarch a prints Cymraeg. Bydd y casgliad yn cael ei lansio yn swyddogol yn Eisteddfod yr Urdd ym Mae Caerdydd, ac ar gael i brynu o stondin Draenog yn ogystal â gwefan Draenog a siopau lleol.

Mae'r casgliad yn cynnwys geiriau 'Paid â Bod Ofn', 'Rebal Wicend', 'Sebona Fi' a mwy o ganeuon poblogaidd Cymraeg. Anwen Roberts sy'n dylunio i'r cwmni. Mae Anwen yn wreiddiol o Ddyffryn Tanat yn Sir Drefaldwyn ond bellach wedi ymgartrefu yn y brifddinas.


'Dwi wrth fy modd yn creu pethau cyfoes Cymraeg, ac o'n i'n awyddus i greu casgliad ychydig yn wahanol i'r arfer sy'n dathlu rhai o hoff ganeuon Cymraeg. Dwi wedi cael ymateb grêt gan y cantorion i gyd, a dwi methu aros i rannu'r cardiau efo mwy o bobl!'

Galwch draw i stondin Draenog yn Eisteddfod yr Urdd neu Tafwyl am ddewis mawr o gardiau Cymraeg ac anrhegion sydd wedi'u dylunio yng Nghaerdydd.

Eisteddfod yr Urdd Caerdydd a'r Fro: 27 Mai - 1 Mehefin

Tafwyl: 22 a 23 Mehefin



# Bwytai Merch y Ddinas

*"Yr ateb, yn fras, yw 'yabadabadŵ!' "*




Lowri Haf Cooke

## Heaney's, Pontcanna

Ers cyhoeddi *Bwytai Cymru*, bûm yn teithio Cymru gyfan, sy'n golygu na ches i gyfle i ymweld â bwytai gorau'r brifddinas ers tro byd. Un o'r rheiny yw Heaney's ar Gilgant Romilly, lle safodd Arbennig a Le Gallois cyn hynny. Gwibiodd chwe mis heibio ers eu noson lansio fawreddog ond, toc ar ôl y Pasg, es i yno am ginio canol dydd.

Mae wastad yn ddiddorol gadael cyfnod wedi'r 'hype' agoriadol, a rhaid cyfaddef, ro'n i'n chwilfrydig i weld a oedd y safon cystal â'r cynnwrf cychwynnol. O'r holl seigiau a sawrais ar bererindod *Bwytai Cymru*, oedodd ambell gyfuniad o flasau yn hir yn y cof. Profais chwyldro yn fy mhen pan flasais y maelgi (monkfish) a sorbet marchruddygl (horseradish) ym mwyty cyntaf y Gwyddel yng Nghymru, Y Tŷ Mawr, Trelales. Dwlais hefyd ar y bara surdoes gyda menyn marmite, a'r cig oen arbennig iawn o Lanilltud Fawr. Pan symudodd y cogydd i Bontcanna ac agor bwyty 'dros-dro' dros yr haf, ro'n i wrth fy modd i ddarganfod nad ffantasi pur mo 'mhrofiad cyntaf – ond tybed beth fyddai'r ymateb erbyn hyn?



Yr ateb, yn fras, yw 'yabadabadŵ!' – dyma gogydd sydd ar dân i greu cyfres o ffrwydriadau yn eich pen. Ro'n i'n benderfynol o archebu yr un seigiau ardderchog hynny, tan i mi sylwi ar bris rhesymol y fwydlen flasu. £42.50 am y cyfle i brofi deg saig wahanol (gan gynnwys fy holl ffefrynnau). Yn syml, ewch amdani!

Mae'n werth oedi i bwysleisio mai plateidiau 'bychain' yw'r rhain; nid plateidiau gorlwythog, fel mewn tafarn fwyd, ond nid 'miniatures' maint tŷ dol chwaith. Mae'n gyfle i edmygu enfys o liwiau yn eich pen, ac ambell drawiad sy'n sioc (pleserus!) i'r system. Mi wn, er enghraifft, fod rhai yn casáu Marmite, ond profodd ffotograffydd fy llyfr droedigaeth mewn chwinciad, wedi brathiad o'r bara menyn nefolaidd! Mae bron iawn cystal - yn fy marn bach i - â'r menyn llawn suddoedd cig eidion Waguy Aberriw a weinir yn Ynyshir!

Yn dilyn y bara menyn, llyncwyd wystrys a iogwrt rhewllyd – y nesaf peth at hufen iâ, blas dil, i ddeffro'r daflod - yna cyfoeth umami hwyaden wedi'i fygu. Ymlaen wedyn at amrywiaeth o 'brif gyrsiau', gan gychwyn â'r maelgi, sy'n cynnig stîd sylweddol i'r synhwyrau. Wedi hynny, cragen fylchog mewn menyn Xo, oedd yn enw newydd sbon i mi. Dychmygwch suddoedd corgimychiaid a pancetta rhost, gyda chwistrelliad chwerwfelys o leim ffres. Bang! Zap! Pow!


Teg yw dweud, bum cwrs i fewn, i mi ofni fod y seigiau braidd yn fychan. Ond roedd tri chwrs sylweddol ar y ffordd – penfras (cod), cig oen, a boch yr ychen (ox cheek) – heb sôn am ddau bwdin i gloi. Dotiodd fy ffrindiau at y penfras, gyda blodfresych, afal a *beurre noisette*, ond i mi, heb os, y cig oen Cymreig a deyrnasodd. Cafodd ei weini â llysiau môr o arfordir Bro Morgannwg a hufen brwyniaid (anchovies), i gydbwyso melyster y cig. Rhagorol. Dydw i ddim yn un mawr am siocled, ond aeth fy ffrindiau'n wyllt am y *mousse* cyfoethog, gafodd ei weini yn y nesaf peth at fowlen cawl! Yn bersonol, rwy'n ffafrio blasau chwerwfelys, ac fe blesiodd y meringue lemwn i'r dim, a dweud y lleiaf.


Coeliwch chi fi, mae £42.50 am fwydlen flasu o'r fath yn fargen yma yng Nghymru. Mae'n brofiad i'w rannu, a thrafod a chymharu, sy'n datgelu ffeithiau newydd am eich cwmni. Profodd y gofod hefyd drawsnewid mawr, gyda bar coctel canolog bendigedig. A gyda Joel wrth y llyw – gynt o fwyty Park House – cawsom gyflwyniad hyfryd iawn cyn aros pryd. Wedi cerdded draw o'r dre, roedd y tonic oren gwaed yn amheuthun, cyn rhannu potel o win sych gwych o Languedoc. Am ragor o hanes Tommy, bachwch gopi o fy llyfr. Mae ei stori – sy'n cychwyn ar y Falls Road ym Melffast – yn bendant werth ei darllen! A parhau wna'r stori honno tua diwedd mis Mai, wrth iddo ef a'i bartner Nikki agor bar gwin Uisce drws nesaf; dyna'r gair Gwyddeleg am ddŵr – *uisce beatha* yw whisgi, gyda llaw - felly 'iechyd da' i'r busnes newydd ym Mhontcanna!

**Heaney's, 6-10 Cilgant Romilly, Pontcanna CF11 9NR; 029 2034 1264**

***Bwytai Cymru* a *Canllaw Bach Caerdydd* gan Lowri Haf Cooke (Gwasg Gomer), £9.99 yr un**

## Rhif: 191



### Ar Draws
6. 'Henaint ni ddaw ei hunan; daw ag och
Gydag ef a -----' (JM-J) (7)
7. Crebachu'r diddiflanedig yn fodlon (5)
9. Cern Gwern ar yn ail (3)
10. 'Ond ym mhabell y cyfarfod
----- ----- ----- llawn o hedd' (AG)(3,2,3'1)
12. Cael y clod ym Medi efallai am dosturio (11)
15. 'Yr Arglwydd yw fy -----, ----- ----- eisiau arnaf' (Salmau) (6,2,3)
17. 'Eist heibio im fel ----- ----
Â'th dafod grasboeth ar dy foch' (IDH) (6,3)
19. Dwli o bob cyfeiriad (3)
21. Holi 500 yn drwyadl a'i rhidyllu (5)
22. 'A chwcw gynta'r tymor
A ----- ----- y coed' (JCH) (5,2)

### I Lawr
1. Hylif coch yn peri galar i 500 (5)
2. Cysylltu ar ddechrau un noswaith oer (3)
3. Arab yn codi i gael rhywbeth i'w fwyta (4)
4. Dydd i Gwilym bron droi'n haerllug (9)
5. Cymryd lle Sid sy'n codi cyn barddoni (7)
8. Llochesi i'r da ym mhurdeb eu daioni (6)
11. Curaf y tal a'u gwneud yn gydradd (9)
13. Bod yn ffyddlon yn ymyl un mewn dryswch (6)
14. 'Blinedig gan ofidiau'r llawr
----- a methedig bron' (TJ) (7)
16. 'Nid wy'n ----- bywyd moethus
Aur y byd na'i berlau mân' (DJ)(5)
18. Nid y blaenaf o frenhinoedd (4)
20. Cwch gwael yn Lloegr (3)

**Enillydd Croesair Rhif 189**
**Llinos Griffiths, Penarth**


**Atebion Croesair Rhif 189**

**Ar Draws:** 1. Gael craig 8. Oed 9. Glas y Dorlan 11. Cic 12. Uno 13. Golchi 14. Pinacl 16. Pastai 18. Yr ynn 19. Cell 21. Uwd 22. A'r lafant pêr 24. Ofn 25. Gwerinaidd

**I Lawr:** 2. Ail 3. Crynu 4. Amodol 5. Golygfa 6. Donald Trump 7. Adweithiad 10. A'm canlynant 11. Cyplysnod

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams
erbyn 5 Mehefin, 2019
22 Heol Cae Rhys, Rhiwbeina, Caerdydd, CF14 6AN

## Llyfr newydd Luned




Dilyniant i *ABC Byd Natur*, *Lliwiau Byd Natur* ac *123 Byd Natur* ydi *Tymhorau Byd Natur* gan Luned Aaron. Mae'r gyfres wedi profi i fod yn un llwyddiannus dros ben, gyda'r llyfrau clawr caled a llawn lliw yn apelio at blant bach, ynghyd â'u rhieni.

Enillodd Luned Aaron wobr Tir na n-Og 2017 am ei chyfrol gyntaf i blant (*ABC Byd Natur*), ac mae ei chyfrol *Lliwiau Byd Natur* wedi cyrraedd rhestr fer gwobrau Tir na n-Og eleni. Meddai Luned: "Mae plant bach yn sylwi ac yn rhyfeddu cymaint at fyd natur wrth gwrs, a dyna oedd yr ysgogiad gwreiddiol i fynd ati i gynhyrchu'r llyfrau yma. Dw i wedi cael modd i fyw yn eu creu nhw, ac mae'n hyfryd gweld plant a'u rhieni yn eu mwynhau yng nghwmni ei gilydd."

*Tymhorau Byd Natur*, Luned Aaron (Gwasg Carreg Gwalch, £5.95)






# Y DIGWYDDIADUR

## Mai

**Sadwrn, 11 Mai**
Bore coffi rhwng 10.30 a 12.00 ar gyfer rhai sydd am ymarfer eu Cymraeg, yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays, CF24 4BX. Croeso i ddysgwyr ac i siaradwyr rhugl. Am 11.00am bydd y Parch. Emyr James yn trafod ei hoff emyn. Yr un amser bydd dosbarth Cymraeg ar gyfer dechreuwyr dan arweiniad Amanda Griffiths. Mynediad am ddim: croeso cynnes i bawb.
**Sadwrn, 11 Mai**
Cyngerdd i ddathlu pen-blwydd Côr Philharmonig Caerdydd yn 40 oed, yn Eglwys Dewi Sant, Cilgant Sant Andreas, CF10 3DD, am 7.30pm. Perfformir *Requiem* Mozart yn ogystal â gwaith gan Eric Jones a Christine James a gomisiynwyd yn arbennig ar gyfer yr achlysur.
**Sadwrn, 11 Mai**
OPRA Cymru yn perfformio cyfieithiad Mererid Hopwood o *Fidelio* gan Beethoven yng Nghanolfan y Celfyddydau Memo, Gladstone Road, Y Barri, am 7.30pm. Manylion pellach: 01446-783622.
**Llun, 13 Mai**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, yng Ngwesty 'Rhif 10 Caerdydd' (Jolyons, gynt), 10 Ffordd y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ, am 7.00pm ar gyfer 7.30pm. Gwestai: Ann Beynon. Croeso i ymwelwyr o gylchoedd cinio eraill. Os am archebu pryd o fwyd, dylid cysylltu â'r Ysgrifennydd, Ruth Davies, ar billd.d2@tiscali.co.uk neu ffonio 029-2221-1407 yr wythnos cynt.
**Mawrth, 14 Mai**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd. Noson Dysgwyr a Chyfarfod Cyffredinol, yn neuadd Eglwys Fethodistaidd Cyncoed (ar y gornel rhwng Westminster Crescent a Heol Cyncoed), am 7.30pm. Croeso cynnes i bawb.
**Mercher, 15 Mai**
Cymdeithas Cymru-Ariannin (Cangen y De). Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, ynghyd â sgwrs gan Gwenno Rees. Yn Eglwys Gyfannol Treganna (*Canton Uniting Church*), Heol Ddwyreiniol y Bont-Faen, CF5 1LQ, am 7.30pm. Lluniaeth ysgafn. Croeso cynnes i bawb.
**Gwener, 17 Mai**
Cymrodorion y Barri. Noson Lawen hwyliog yng Nghanolfan Palmeston am 7.30pm. Croeso cynnes i bawb. Os oes gennych eitem, cysylltwch! Paned a bisgïen.
**Sadwrn, 18 Mai**
Coffi a chlonc i ddysgwyr yn Eglwys Dewi Sant, Cilgant Sant Andreas, Caerdydd, CF10 3DD, rhwng 10.30 a 12.00. Mae croeso i chi ddod am baned ac i sgwrsio.
**Llun, 20 Mai**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Cyngerdd yng Nghapel Bethel, Maesyderi, am 7.30pm. Tâl mynediad: £5.
**Llun, 20 Mai**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd. Sgwrs gan Derith Rhisiart (Synergy Cymru) ar y testun 'Gwirionedd'. Yn Ystafell 0.77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30pm. Croeso i bobl nad ydynt yn 'arbenigwyr' gwyddonol.
**Mercher, 22 Mai**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. 'Brethyn Cartref', yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.
**Sadwrn, 25 Mai**
Cymdeithas Carnhuanawc. Ymweliad â Merthyr Tudful. Cyfarfod ger Gorsaf Drenau Merthyr. Manylion pellach: llanisien-carnhuanawc@yahoo.co.uk
**Llun, 27 Mai – Sadwrn, 1 Mehefin**
Eisteddfod yr Urdd Caerdydd a'r Fro.

## Mehefin

**Mercher, 5 Mehefin**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Te Mefus yng nghwmni Delwyn Siôn, yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.
**Sadwrn, 8 Mehefin**
Bore coffi rhwng 10.30 a 12.00 ar gyfer rhai sydd am ymarfer eu Cymraeg, yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays, CF24 4BX. 'Bore Siarad.' Croeso i ddysgwyr ac i siaradwyr rhugl. Yr un amser bydd dosbarth Cymraeg ar gyfer dechreuwyr dan arweiniad Amanda Griffiths. Mynediad am ddim: croeso cynnes.
**Mawrth, 11 Mehefin**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd. Bydd y Parch. Ddr R Alun Evans yn ein diddanu gyda throeon trwstan, yn neuadd Eglwys Fethodistaidd Cyncoed (ar y gornel rhwng Westminster Crescent a Heol Cyncoed), am 7.30pm. Croeso cynnes i bawb.
**Sadwrn, 15 Mehefin**
Coffi a chlonc i ddysgwyr yn Eglwys Dewi Sant, Cilgant Sant Andreas, Caerdydd, CF10 3DD, rhwng 10.30 a 12.00. Mae croeso i chi ddod am baned ac i sgwrsio.
**Sadwrn, 15 Mehefin**
Gŵyl Fach y Fro ar Ynys y Barri rhwng 11.00am a 7.00pm. Digwyddiad am ddim! Manylion pellach:https://menterbromorgannwg.org/cy
**Llun, 17 Mehefin**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Brethyn Cartref a Chyfarfod Blynyddol, yng Nghapel Bethel, Maesyderi, am 7.30pm.
**Mercher, 19 Mehefin**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Ymweliad Haf.
**Gwener, 21 Mehefin**
Noson arbennig yng Nghastell Caerdydd wedi'i threfnu gan Dafwyl ar y cyd â PYST. Bydd mynediad *am ddim* i'r digwyddiad, sy'n digwydd rhwng 5.30pm a 10.00pm. Bydd y perfformwyr yn cynnwys Gwenno, Lleuwen, Adwaith, Serol Serol, a DJ Huw Stephens. Yn rhan o'r noson bydd yr artist Swci Delic hefyd yn curadu Llwyfan y Sgubor, a bydd Bragdy'r Beirdd yn cyflwyno Georgia Ruth, Iwan Huws a Beirdd y Bragdy. Manylion pellach: http://tafwyl.org/
**Sadwrn, 22 Mehefin**
Gorymdaith Ddathlu 70 Mlynedd Addysg Gymraeg yng Nghaerdydd. Ymgynnull ger Neuadd y Ddinas rhwng 9.00 a 10.00am. Y Cynghorydd Huw Thomas, Arweinydd Cyngor Caerdydd, yn dechrau'r Orymdaith o Neuadd y Ddinas am 10.00. Cerdded drwy strydoedd di-draffig a thanffyrdd Caerdydd i'r Ais ac yn ôl i gyrraedd Porth y Gogledd, Castell Caerdydd am 11.00. Croesawu'r Orymdaith ym Mhabell yr Ysgolion yn Nhafwyl gan Eluned Morgan AC, Gweinidog dros y Gymraeg, Llywodraeth Cymru, am 11.30.
**Sadwrn, 22 Mehefin – Sul, 23 Mehefin**
Tafwyl yng Nghastell Caerdydd. Manylion pellach: http://tafwyl.org/

**I anfon gwybodaeth i'r Digwyddiadur**
**gweler manylion ar dud. 2**

# CRCC – DAL I OBEITHIO

Siom fawr oedd colli yn erbyn Nantgaredig yn rownd yr wyth ola ym Mowlen URC. Er nad oedd Nantgaredig wedi colli'r un gêm y tymor hwn, roedd hi'n gêm gystadleuol rhwng dau dîm cyfartal eu safon. Roedd y croeso yn eu clwb yn un cynnes, ond roedden ni i gyd yn gwybod bod cyfle euraidd wedi llithro trwy ein dwylo!

Ar ôl colli'r gêm gwpan, trodd sylw Clwb Rygbi Cymry Caerdydd nôl at y mater pwysig o sicrhau ein presenoldeb yn Adran 3(a) Canol Dwyrain y tymor nesa. Roedden ni mewn sefyllfa ansicr tu hwnt, yn drydydd o waelod yr adran, gyda'r Undeb yn awgrymu y gallai tri thîm golli eu lle yn yr adran, fel canlyniad i newidiadau yn yr adrannau uwch. Roedd buddugoliaeth neu ddwy yn angenrheidiol, felly.

Ond mae stori'r tymor wedi parhau - cyfleoedd yn cael eu creu, ac yna'u gwastraffu. Roedd dau benwythnos mis Ebrill efallai'n crynhoi'r anghysondeb hwn. Taith i fyny i Bentyrch oedd ar benwythnos cynta'r mis, a hwythau hefyd mewn peryg, un safle uwch ein pennau. Ar un adeg, roedd y Clwb ar y blaen o 20-5, ac roedd buddugoliaeth, a phwynt bonws yn edrych yn anochel. Ond Pentyrch oedd y cryfa yn yr ugain munud olaf, ac erbyn y diwedd, roedden ni'n dal 'mlaen am ein bywydau. Ennill oedd y canlyniad, o 27-26, ond heb y pwynt bonws, ac wedi gadael i Bentyrch sicrhau dau bwynt bonws gwerthfawr hefyd.

Roedd y penwythnos canlynol yn fwy poenus fyth, wrth i ni groesawu Pontyclun i Bontcanna. Cafwyd dechreuad perffaith, gyda'r asgellwr chwim Alun Evans yn croesi deirgwaith o fewn hanner awr, a ninnau'n rheoli. Ond eto, roedd yr ail hanner yn perthyn i Bontyclun, a gyda symudiad ola'r gêm, llwyddon nhw i groesi am bumed cais, a sicrhau gêm gyfartal o 35-35. Triphwynt pwysig i'r Clwb, ond dau bwynt pwysig arall wedi llithro o'n gafael gyda'r cais hwyr hwnnw.



*Cais gan Alun yn erbyn Pentyrch*



*Rhys Luckwell*

Felly mae 'na dair gêm yn weddill; un oddi cartref yn y Bont-faen, sydd â'u llygaid ar ennill dyrchafiad, ac wedyn dwy gêm yn erbyn Pendyrys, sydd yn ddiogel ar ganol y tabl. Wedi curo Pendyrys yn y cwpan eisoes eleni, mae digon o reswm i obeithio y gallwn ni gipio canlyniad positif yn eu herbyn, ond unwaith yn rhagor, mae ewinedd dilynwyr y Clwb yn mynd i fod yn fyr iawn erbyn diwedd y tymor!

***John Parry-Jones***

**Ôl-nodyn:** Mae'n debyg bod ugain o'r chwaraewyr yn y gêm yna rhwng CRCC a Phentyrch yn siaradwyr Cymraeg – 12 yn nhîm CRCC ac 8 yn nhîm Pentyrch!